Atodiad 1

# Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

# 2017 - 2020

**Cynnwys** **Tudalen**


**1.0 Cyflwyniad** **5**

Datganiad Cenhadaeth 6
Gweledigaeth a Gwerthoedd 6
Cyd-destun 7
Trafnidiaeth i ddysgwyr 11

**2.0 Canlyniadau Strategol** **11**

**Canlyniad 1** – Mwy o blant 7 oed yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg 12

**Mesur 1.1:** Cynyddu'r nifer o blant saith oed sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg o 1.2%, o 15.2% yn Ionawr 2016 i 16.4% erbyn 2020. 12

**Mesur 1.2:** Cynyddu nifer y plant oedran Derbyn sy'n mynd i addysg Gymraeg bob blwyddyn 12

**Canlyniad 2** – Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith ar drosglwyddiad o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd. 14

**Mesur 2.1:** Cynyddu'r nifer o ddysgwyr blwyddyn naw a asesir mewn Cymraeg (Iaith Gyntaf) o 1.5% i 14.4% erbyn 2020. 14

**Mesur 2.2:** Cynnal neu wella'r raddfa drosglwyddo gyfartalog ledled y ddinas rhwng Cyfnod Sylfaen i CA2, CA2 i CA3 a CA3 i CA4 o 95% erbyn 2020. 14

**Mesur 2.3:** Cynnal trosglwyddiad o 100% o'r Uned Drochi Gymraeg i ysgolion cyfrwng Cymraeg erbyn 2020. 14

**Canlyniad 3** - Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio am gymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg. 16

**Mesur 3.1:** Cynnal y ganran o ddysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) sy'n astudio am o leiaf ddau gymhwyster pellach lefel 1 neu lefel 2 trwy gyfrwng y Gymraeg ar 100% erbyn 2020 (Noder nad yw hyn yn cynnwys y plant hynny sydd â datganiad AAA). 17

**Mesur 3.2:** Cynnal y ganran o ddysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) sy'n astudio am o leiaf pum cymhwyster pellach lefel 1 neu lefel 2 trwy gyfrwng y Gymraeg o 3% i 95% erbyn 2020 (Noder nad yw hyn yn cynnwys y plant hynny sydd â datganiad AAA). 17

**Canlyniad 4** – Mwy o fyfyrwyr 14-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion, colegau ac yn y gweithle. 19

**Mesur 4.1:** Cynyddu'r ganran o ddysgwyr 17 oed sy'n astudio 2 neu fwy o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg o 4% erbyn 2020. 19

**Canlyniad 5** – Mwy o fyfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg 21

***Gwella darpariaeth a safonau mewn Cymraeg iaith gyntaf*** **21**

**Mesur 5.1:** Cynyddu'r ganran o ddysgwyr ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen sy'n cyrraedd o leiaf Canlyniad 5 y Cyfnod Sylfaen mewn Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg i 95% erbyn 2020. 21

**Mesur 5.2:** Cynnal y ganran o ddysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 sydd yn cyrraedd o leiaf Lefel 4 mewn asesiad athro yn y Gymraeg ar 96% erbyn 2020. 21

**Mesur 5.3:** Cynyddu'r ganran o ddysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 sydd

yn cyrraedd o leiaf Lefel 5 mewn asesiad athro yn y Gymraeg i 95% erbyn 2020 22

**Mesur 5.4:** Cynyddu'r ganran o ddysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 sydd yn cyflawni graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg iaith gyntaf i 85% erbyn 2020. 22

***Gwella darpariaeth a safonau mewn Cymraeg Ail Iaith*** **23**

**Mesur 5.5:** Cynyddu'r ganran o ddysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 sydd yn cyrraedd o leiaf Lefel 4+ mewn Cymraeg Ail Iaith i 80% erbyn 2020. 23

**Mesur 5.6:** Cynyddu'r ganran o ddysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 sydd yn cyrraedd o leiaf Lefel 5+ mewn Cymraeg Ail Iaith i 83% erbyn 2020. 23

**Mesur 5.7:** Cynyddu'r ganran o ddysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 sydd yn cyflawni graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Ail Iaith Cwrs Llawn i 85% erbyn 2020. 23

**Mesur 5.8:** Cynyddu'r ganran o ddysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 sydd yn cyflawni graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Ail Iaith Cwrs Byr i 50% erbyn 2018. 24

***Mwy o ddysgwyr â sgiliau iaith Gymraeg lefel uwch*** **24**

**Mesur 5.9:** Cynyddu cyfanswm y rhai sy'n cofrestru ar gyfer Safon Uwch Cymraeg iaith gyntaf fel canran o'r rhai a safodd TGAU Cymraeg iaith gyntaf ddwy flynedd ynghynt) i 5.5% erbyn 2020. 24

**Mesur 5.10:** Cynyddu cyfanswm y rhai sy'n cofrestru ar gyfer Safon Uwch Cymraeg ail iaith (fel canran o'r rhai a safodd Cwrs Llawn TGAU Cymraeg Ail Iaith ddwy flynedd ynghynt) i 1% erbyn 2020. 24

**Canlyniad 6** – Darpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr gydag ADY 26

**Mesur 6.1:** Cynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael mewn CAAau cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg o 18 o leoedd i 42 erbyn Medi 2020. 26

**Canlyniad 7** – Cynllunio'r gweithlu a datblygu proffesiynol parhaus 28

**3.0 Symud Ymlaen** **31**

**<u>Rhestr o Dablau</u>**

**Tabl 1:** Plant a phobl ifanc 4-18 oed mewn addysg cyfrwng Cymraeg llawn amser. 7

**Tabl 2:** Derbyniad dosbarth Derbyn cyfrwng Cymraeg 2004-16 9

**Tabl 3**: Derbyniad dosbarth Derbyn amcanestynedig a tharged 9

**Tabl 4**: Amcanestyniadau a thargedau Blwyddyn 2 cyfrwng Cymraeg hyd at 2022/23 12

**Tabl 5:** Dysgwyr ym mlwyddyn naw a asesir yn Gymraeg (Iaith Gyntaf) mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ffrydiau cyfrwng Cymraeg. 14

**Tabl 6:** Cyfanswm y garfan ym mlwyddyn 11 gyda nifer y cofrestriadau ar gyfer 2+ o gymwysterau lefel 1 neu lefel 2 pellach mewn Cymraeg (Iaith Gyntaf). 16

**Tabl 7:** Cyfanswm y garfan ym mlwyddyn 11 gyda nifer y cofrestriadau ar gyfer 5+ o gymwysterau lefel 1 neu lefel 2 pellach mewn Cymraeg (Iaith Gyntaf). 16

**Tabl 8:** Nifer a chanran y dysgwyr sy'n astudio 2 neu fwy o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg ar Safon Uwch. 19

**Tabl 9:** CIG Caerdydd a Chymru Cyfnod Sylfaen cyrhaeddiad Canlyniad 5+ 2013 - 2020 21

**Tabl 10:** CIG Caerdydd a Chymru Cyfnod Allweddol 2 – cyrhaeddiad Lefel 4+ 2013 – 2020 22

**Tabl 11:** CIG Caerdydd a Chymru Cyfnod Allweddol 2 – cyrhaeddiad Lefel 5+ 2015/16 22

**Tabl 12:** Caerdydd a Chymru Cyfnod Allweddol 3 –Lefel 5+ 2013 – 2020 22

**Tabl 13:** CIG Caerdydd a Chymru Cyfnod Allweddol 4 TGAU A*-C 2013 – 2020 22

**Tabl 14:** Nifer o leoedd mewn CAAau cyfrwng Cymraeg a'r cynnydd capasiti a gynlluniwyd 26

**Tabl 15:** Ysgolion sy'n cyflenwi addysg cyfrwng Cymraeg ar draws Caerdydd. 32

**Tabl 16:** Ymatebwyr sy'n defnyddio ac eisiau darpariaeth iaith wahanol i'r ddarpariaeth gofal plant bresennol ac yn y dyfodol. 36

**Tabl 17:** Derbyniadau disgyblion i'r Uned DrochiGymraeg a'r gyfradd drosglwyddo. 37

**<u>Rhestr Atodiadau</u>**

**Atodiad A:** Gwybodaeth atodol i Ganlyniad 1 32

**Atodiad B:** Gwybodaeth atodol i Ganlyniad 2 37

**Atodiad C**: Data Trosglwyddo'r Mudiad Meithrin 2014/15 a 2015/16 38

**Atodiad D**: Crynodeb o Fesuriadau CSCA 39

## 1.0 Cyflwyniad

Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) hwn ar gyfer y cyfnod 2017-2020, ac mae’n adeiladu ar y momentwm a'r ymrwymiadau gan y CSCA cynharach o 2014. Tra’i fod yn seiliedig ar y saith canlyniad allweddol, bydd yn datblygu gweledigaeth y Cyngor ymhellach, ac yn gwella cyflenwi twf a darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y ddinas.

Mae Cyngor Dinas Caerdydd wedi ymrwymo i ddatblygu Caerdydd Ddwyieithog. Bydd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) 2017-2020 yn helpu Caerdydd i gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru i weld miliwn o siaradwyr Cymraeg ar draws Cymru erbyn 2050.

Er mwyn i Gaerdydd chwarae ei rhan wrth gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru, byddai angen i ni gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg (oed 3+) yng Nghaerdydd gan 15.9%, o 36,735 (Cyfrifiad 2011) i 42,584 (Cyfrifiad2021). Eisoes mae sector addysg Caerdydd wedi cyfrannu at gyflawni 58% o'r targed hwn hyd yma trwy gynyddu nifer y plant sy'n cael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg ar y pwynt mynediad cyntaf ar lefel gynradd.

Mae'r CSCA hwn yn rhan annatod o Strategaeth 5 Mlynedd Caerdydd Ddwyieithog y Cyngor. Seilir maes mwyaf amlwg y gyd-ddibyniaeth rhwng ddwy strategaeth ar faes strategol 1: Teuluoedd, Plant a Phobl Ifanc. Mae’r blaenoriaethau yn y maes hwn yn seiliedig ar hyrwyddo, darpariaeth a chynnydd. Mae'r agweddau hyn yn gyflenwadau craidd o fewn canlyniadau 1 a 2 yn y CSCA hwn.

Amcana’r Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog at gynyddu nifer y siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yng Nghaerdydd yn ogystal â chynyddu’r defnydd o’r iaith Gymraeg yn y ddinas. Mae Cyngor Dinas Caerdydd yn cydnabod bod y system addysg yn elfen allweddol o ran sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg, a chreu siaradwyr newydd.

Hefyd bydd y CSCA yn cyfrannu at y saith nod lles cenedlaethol sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, yn arbennig o ran Cymru ffyniannus sy'n darparu addysg a hyfforddiant o safon uchel i blant a phobl ifanc, gyda'r bwriad o hybu cyfleoedd cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg bellach/uwch yn yr iaith o'u dewis.

Hefyd datblygwyd y strategaeth hon o fewn y cyd-destun polisi strategol a ddarperir gan:

- Strategaeth yr Iaith Gymraeg 2012-17 a drafft strategaeth Llywodraeth Cymru: Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 (2016).
- Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a Rheoliadau Asesu’r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013.
- Ailysgrifennu'r Dyfodol: codi uchelgais a chyrhaeddiad yn ysgolion Cymru, 2014.
- Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o Drefniadau Cwricwlwm ac Asesu yng Nghymru, yr Athro Donaldson, Chwefror 2015.
- Cynllun Corfforaethol 2016-18 Cyngor Dinas Caerdydd a Strategaeth Partneriaeth Integredig Beth sy'n Bwysig
- Caerdydd 2020: gweledigaeth newydd ar gyfer addysg yng Nghaerdydd.
- Caerdydd Ddwyieithog: Strategaeth Iaith Gymraeg 5 Mlynedd, 2017-2022.

Bydd y CSCA hwn yn canolbwyntio ar sicrhau bod yr holl ddysgwyr, beth bynnag fo'u cefndir economaidd-gymdeithasol, yn cael cyfle cyfartal i gyflawni eu disgwyliadau drwy gyflwyno addysg cyfrwng Cymraeg o’r ansawdd uchaf. Mae’r Cyngor hefyd yn

cydnabod pwysigrwydd hanfodol datblygu partneriaethau cryf a throsglwyddiad di-dor ym mhob cyfnod allweddol i ddatblygu dinas wirioneddol ddwyieithog gyda system addysg ffyniannus yng Nghymru.

## Datganiad Cenhadaeth

Mae bob plentyn yn ein dinas yn teimlo'n hyderus yn y Gymraeg erbyn 2050, i gyfrannu tuag at greu Gaerdydd wirioneddol ddwyieithog lle mae'r iaith Gymraeg yn cael ei diogelu a'i meithrin fel y gall cenedlaethau'r dyfodol ei defnyddio a'i mwynhau.

## Gweledigaeth

Bydd system addysg Caerdydd yn gweithredu fel sbardun allweddol i sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg, a chreu siaradwyr newydd, i gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

## Gwerthoedd

Dros y tair blynedd nesaf, 2017-2020, nodau strategol y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yw sicrhau darpariaeth addysg lle:

- Mae addysg cyfrwng Cymraeg **ar gael** i bawb, gyda throsglwyddiad effeithiol rhwng oedrannau a chyfnodau;

- Mae disgyblion â **gwell rhuglder** ac yn defnyddio'r iaith Gymraeg ar draws yr holl ysgolion cymunedol, ffydd a sylfaen yng Nghaerdydd;

- Mae darpariaeth yn **gynhwysol,** gan oresgyn rhwystrau, a darparu cyfleoedd i unrhyw berson ifanc gael addysg dda trwy gyfrwng y Gymraeg;

- Rydym yn **dathlu** a hyrwyddo'r iaith Gymraeg, drwy addysgu o ansawdd uchel a herio galluoedd dysgu plant;

- Rydym yn **hyrwyddo** defnydd ehangach o'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth trwy gyfleoedd chwarae, hamdden a gofal gwyliau, ac ieuenctid yn ogystal â thu hwnt i'r ysgol mewn Addysg Bellach ac Uwch, hyfforddiant a chyflogaeth.

## Cyd-destun

Mae cyd-destun dinas Caerdydd yn newid. Mae ei phoblogaeth yn cynyddu'n gyflym a disgwylir iddi gynyddu 26% erbyn 2036, oddeutu 91,500 o drigolion newydd. Bydd cynnwys y twf hwn yn golygu adeiladu 41,000 o gartrefi newydd a chreu 40,000 o swyddi newydd. Bydd hyn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol cael niferoedd sylweddol o sefydliadau ysgol newydd ar draws y ddinas, gan gynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sectorau cynradd, uwchradd ac arbennig.

Bydd addasu i'r demograffig newidiol hwn yn heriol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fanteisio ar y cyfleoedd a ddaw yn ei sgil i gefnogi'r weledigaeth ar gyfer Caerdydd Ddwyieithog trwy ei darpariaeth addysg.

Rhwng 2011/12 a 2015/16, bu cynnydd o 985 o ddisgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y ddinas. Erbyn 2020, disgwylir i hyn godi o 798 o ddisgyblion pellach, sef cynnydd

rhagamcanedig o gyfanswm y disgyblion a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg i 15% (a ddangosir yn nhabl 1).

Digwyddodd hyn yn rhannol o ganlyniad i gynnydd yn y boblogaeth ac o ganlyniad i ehangu'r ddarpariaeth o fewn y sector cyfrwng Cymraeg a sefydlu ysgolion newydd. Yn nodedig, cynhwysa hyn agor y drydedd Ysgol Uwchradd Cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd, Bro Edern ym Mhen-y-lan yn 2012, ac yna yn 2013, adeiladu'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd 3DM yn Nhreganna, a arweiniodd at uno Ysgol Tan yr Eos a Threganna a chynnydd o un dosbarth y flwyddyn (1DM).

Yn ogystal â hyn, cynyddodd Ysgol Gynradd Ysgol-y-Wern yn Llanisien o ran capasiti o 0.5 dosbarth y flwyddyn (15 lle) ym mis Medi 2015. Ategwyd hyn ymhellach gyda sefydlu ysgol gynradd gychwynnol cyfrwng Cymraeg 2DM newydd ar gyfer Butetown, Ysgol Hamadryad, a agorwyd ym mis Medi 2016 ac a fydd yn symud i ysgol newydd yng ngwanwyn 2018.

Mae cynlluniau eraill i gynyddu'r capasiti o fewn y sector cynradd yn cynnwys estyniad 1DM i Ysgol Glan Morfa yn Sblot i fod yn weithredol o fis Medi 2017 gyda'r ysgol yn symud i adeilad newydd yng ngwanwyn 2018. Hefyd gwelir cynnydd yn yr ystod oedran o 4 - 11 oed i 3 -11 oed yn Ysgol Glan Ceubal yn Ystum Taf, drwy ddarparu meithrinfa newydd gyda 48 o leoedd Cyfwerth Rhan-amser (CARh) o fis Medi 2016. Cymeradwywyd adeilad newydd i Gabalfa/ Ysgol Glan Ceubal gan Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor ym mis Chwefror.

Gweler isod y twf hwn yn y sector yn Nhabl 1.


***Tabl 1: Plant a phobl ifanc 4-18 oed mewn addysg cyfrwng Cymraeg llawn-amser***

| **Blwyddyn Ysgol** | **Disgyblion wedi'u cofrestru mewn addysg cyfrwng Cymraeg 4-18 oed.** | **% 4-18 oed mewn addysg cyfrwng Cymraeg fel % o gyfanswm y garfan** |
|---|---|---|
| 2011/12 | 6,025 | 13.0% |
| 2012/13 | 6,241 | 13.3% |
| 2013/14 | 6,541 | 13.7% |
| 2014/15 | 6,867 | 14.2% |
| 2015/16 | 7,010 | 14.3% |
| 2016/17 (amcanestyniad) | 7,222 | 14.4% |
| 2017/18 (amcanestyniad) | 7,429 | 14.7% |
| 2018/19 (amcanestyniad) | 7,628 | 14.9% |
| 2019/20 (amcanestyniad) | 7,808 | 15.0% |
| 2020/21 (amcanestyniad) | 7,967 | 15.1% |
| 2021/22 (amcanestyniad) | 8,107 | 15.2% |

*Ffynonellau: Data CYBLD 2011/ 12 i 2015/16 a gyflenwyd gan ysgolion (Ionawr); amcanestyniadau 2016/17 i 2019/20 seiliedig ar ddata CYBLD 2016 a data GIG.*

Mae'r twf cyffredinol o addysg cyfrwng Cymraeg llawn amser ar gyfer disgyblion rhwng 4-18 oed yn dangos cynnydd o 985 o ddisgyblion o 2011/12 i 2015/16. Rhwng 2016/17 a 2021/22, rhagwelir y bydd nifer y disgyblion 4-18 oed a addysgir mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cynyddu o 12.3% (o 7,222 i 8,107), gan wneud cyfraniad sylweddol i gwrdd â'r targedau a osodwyd yn Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 5 Mlynedd y Cyngor.

Darperir darlun o dwf addysg cyfrwng Cymraeg trwy edrych ar nifer y disgyblion sy'n cael mynediad i'r dosbarth Derbyn. Rhwng 2004/5 a 2016/17 bu cynnydd o 77.0% yn nifer y disgyblion sy'n mynd i mewn i addysg cyfrwng Cymraeg, mewn cyfnod pan gynyddodd nifer gyffredinol y disgyblion sy'n dechrau addysg gynradd o 28.9%.




Yn 2015/16, derbyniwyd 15.9% o ddisgyblion oed derbyn i addysg cyfrwng Cymraeg, o'i gymharu â 12.6% yn 2004/55.

***Tabl 2: Derbyniad Dosbarth Derbyn 2004 - 2016***

| Blwyddyn Ysgol | Derbyniad Gwirioneddol (CC) | Derbyniad Gwirioneddol (CC, CS a Ffydd) | % Derbyniad Gwirioneddol (CC) |
|---|---|---|---|
| 2004/05 | 421 | 3333 | 12.6% |
| 2005/06 | 455 | 3402 | 13.4% |
| 2006/07 | 465 | 3257 | 14.3% |
| 2007/08 | 519 | 3463 | 15.0% |
| 2008/09 | 555 | 3474 | 16.0% |
| 2009/10 | 572 | 3683 | 15.5% |
| 2010/11 | 594 | 3859 | 15.4% |
| 2011/12 | 651 | 4019 | 16.2% |
| 2012/13 | 686 | 4221 | 16.3% |
| 2013/14 | 678 | 4256 | 15.9% |
| 2014/15 | 706 | 4246 | 16.6% |
| 2015/16 | 690 | 4335 | 15.9% |
| 2016/17 | 745 | 4297 | 17.3% |

*Ffynhonnell: CYBLD 2004 – 2015 a NOR – Hydref 2016*

Dengys y data ar gyfer y flwyddyn ysgol 2016/17 bod 17.3% o ddisgyblion wedi eu derbyn i addysg cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd sylweddol o'i gymharu â 2015/16. Gwelir isod amcanestyniadau a thargedau, fodd bynnag; bydd angen dadansoddi data cyfrifiad ysgolion 2017 yn ddiweddarach yn y flwyddyn i ystyried yn llawn beth fydd yr effaith ar yr amcanestyniadau i'r dyfodol.

***Tabl 3: Derbyniad Dosbarth Derbyn amcanestynedig a tharged 2017 - 2020***

| Blwyddyn Ysgol | Derbyniad amcanestynedig (CC) | Derbyniad amcanestynedig (CC, CS a Ffydd) | % Derbyniad amcanestynedig (CC) | Derbyniad targed (CC) | % Derbyniad targed (CC) |
|---|---|---|---|---|---|
| 2017/18 | 720 | 4343 | 16.6% | 720 | 16.6% |
| 2018/19 | 733 | 4139 | 17.7% | 738 | 17.8% |
| 2019/20 | 737 | 4189 | 17.6% | 767 | 18.3% |
| 2020/21 | 741 | 4220 | 17.6% | 811 | 19.2% |

*Ffynhonnell: Data Cofrestriadau â Meddygon Teulu GIG 2016 ac amcanestyniadau seiliedig ar CYBLD*

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod disgyblion ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn trosglwyddo i dair ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg o fewn y ddinas. Cydnabyddir bod sicrhau twf parhaus yn y sector cynradd cyfrwng Cymraeg yn golygu bod angen cynnydd yn y ddarpariaeth sector uwchradd; fodd bynnag, ni ragwelir y bydd hyn yn ofynnol tan ar ôl 2022, sydd y tu allan i amserlen y CSCA hwn. Mae 16% o leoedd gwag net o fewn y sector uwchradd ar hyn o bryd. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro amcanestyniadau ysgolion cynradd, gan gynnal astudiaethau dichonolrwydd ac ymgymryd â gwaith cynllunio datblygu dros gyfnod y cynllun hwn er mwyn sicrhau y bydd mewn sefyllfa i sicrhau digonolrwydd lleoedd uwchradd Cymraeg pan fo angen darpariaeth uwchradd bellach.

Yr hyn sy'n rhaid ei gydnabod hefyd yw'r effaith a gaiff y ddau safle tai mawr yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar y ddarpariaeth addysg ar draws y ddinas. Mae dau safle tai wedi'u cynnwys yn y CDLl ac mae'r rhain i'w cael yng Ngogledd-ddwyrain y ddinas rhwng ardaloedd Llys-faen a Phontprennau ac yng Ngorllewin y ddinas, yn yr ardal rhwng Radur a'r Tyllgoed. Rhagwelir y bydd y ddwy ardal hyn yn golygu hyd at 12,000 o gartrefi newydd rhwng nawr a 2026. Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r ardaloedd hyn, bydd yn ofynnol cael tua 22 dosbarth y flwyddyn yn y sector cynradd i wasanaethu'r cymunedau newydd, ynghyd â dwy ysgol uwchradd newydd fawr.

Ymgynghorwyd yn eang â rhanddeiliaid ar y strategaeth hon yn ystod ei datblygiad ac fel strategaeth dinas-eang, bydd gweithredu a chyflwyno'r CSCA yn cael ei rannu gyda nifer o randdeiliaid. Bydd y rhanddeiliaid hyn yn cynnwys penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion cyfrwng Cymraeg, y Mudiad Meithrin, Menter Caerdydd, y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, Consortiwm Canolbarth y De a'r Fforwm Addysg Gymraeg gan gynnwys RhAG, sy'n rhannu'r cyfrifoldeb am hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y ddinas.

Mae Fforwm y Gymraeg mewn Addysg (FfGA) yn cyfarfod yn dymhorol ac mae wedi dod yn rhan annatod o'r Cynllun Trefniadaeth Ysgolion, yn ogystal â chyfarfod yn chwarterol gyda nifer o Benaethiaid Cymraeg i helpu i arwain a llywio datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y ddinas. Nododd ymatebwyr i'r ymgynghoriad nifer o randdeiliaid eraill y gellid eu cynnwys ar aelodaeth y Fforwm Addysg Gymraeg gan gynnwys Prifysgol Caerdydd, llywodraethwyr ysgolion, y Bwrdd Iechyd, yr Amgueddfa Genedlaethol a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Cyfrifoldeb y Cyngor yw sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg ar gael i bawb ac i ddatblygu'r ddarpariaeth. Nid yw'r FfGA yn gorff gwneud penderfyniadau ond mae'n gwneud cyfraniad pwysig i gynllunio lleoedd ysgol yn y ddinas. Yn destun i gymeradwyaeth, prif amcanion y FfGA yw:

- I gyfrannu at ddatblygiad a gweithrediad y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar gyfer Dinas Caerdydd mewn cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013).

- I sicrhau cyfranogiad rhanddeiliaid wrth baratoi, cyflwyno ac adolygu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar gyfer Caerdydd.

- I fynd ati'n weithredol i lywio'r gwaith o gynllunio lleoedd cyfrwng Cymraeg trwy gyfrannu at dynnu sylw at feysydd sydd angen eu datblygu, monitro'r niferoedd derbyn, yn ogystal â chyfraddau trosglwyddo rhwng cyfnodau o fewn addysg cyfrwng Cymraeg.

- I gyfrannu at ddatblygu a hyrwyddo addysg a gweithgareddau cyfrwng Cymraeg i gefnogi rôl ehangach y Gymraeg tu allan i'r dosbarth trwy ddathlu canlyniadau cadarnhaol a nodi/rhannu arferion gorau a chynorthwyo i ddatblygu strategaethau gwella.

- I gyfrannu at y dyheadau y bydd addysg cyfrwng Cymraeg yn cael eu hintegreiddio'n llawn yn y Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog (2017-2022).

## Trafnidiaeth i Ddysgwyr

Mae Cyngor Caerdydd yn darparu trafnidiaeth am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg sydd o oedran ysgol statudol (5 i 16) ac sy'n byw 2 filltir neu fwy, (i ddisgyblion cynradd), neu 3 milltir neu fwy, (i ddisgyblion uwchradd) (a fesurir trwy'r pellter cerdded byrraf sydd ar gael) o'u hysgol dalgylch sydd agosaf i'w cyfeiriad cartref.

Noda polisi trafnidiaeth cartref i'r ysgol presennol Cyngor Caerdydd fod 4 categori/ math o ysgol briodol agosaf, sef:-

1. Yr Ysgol Gymunedol cyfrwng Saesneg agosaf
2. Yr Ysgol Gymunedol cyfrwng Cymraeg agosaf
3. Yr Ysgol Eglwys yng Nghymru agosaf
4. Yr Ysgol Gatholig agosaf

Yn unol â pholisi presennol y Cyngor, darperir trafnidiaeth am ddim i ddisgyblion sy'n byw fwy na'r pellter cerdded statudol o'u hysgol cyfrwng Cymraeg dalgylch agosaf, p'un a oes ysgol cyfrwng Saesneg neu Ffydd yn nes neu beidio.

Pan agorir ysgolion newydd ac y dynodir dalgylchoedd ar gyfer pob math/categori o ysgol, mae Caerdydd yn defnyddio'r un egwyddor i bob ysgol, yn yr ystyr bod y dalgylch newydd yn berthnasol i'r holl ddisgyblion sy'n dechrau mewn ysgol o'r mis Medi pryd y daw'r newid yn effeithiol. Mae'r dalgylch newydd hefyd yn berthnasol i unrhyw ddisgyblion sy'n dechrau yn yr ysgol ym mhob blwyddyn ddilynol ar ôl hynny.

Bydd Ysgol Hamadryad, yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg 2DM newydd yn Butetown, yn treialu dulliau newydd o deithio cynaliadwy. Y nod yw sicrhau bod 70% o boblogaeth yr ysgol yn defnyddio dulliau cynaliadwy o deithio i'r ysgol, yn bennaf ar ffurf cerdded. Mae timau'r Cyngor ac aelodau'r grŵp Teithio Byw i'r Ysgol yn gweithio'n agos gyda'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethu i gynllunio mentrau priodol.

## 2.0 Canlyniadau Strategol

Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg wedi datblygu a monitro saith canlyniad strategol allweddol. Defnyddir y rhain fel sail ar gyfer cynllunio a darparu addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y ddinas.

Nodir y rhain isod yn yr adrannau canlynol ac maent yn sefydlu dyheadau'r ddinas ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg hyd at y flwyddyn 2020.

## Canlyniad 1:

## Mwy o blant 7 oed yn cael eu haddysgu

## trwy gyfrwng y Gymraeg

Canlyniad strategol cyntaf y CSCA yw cael mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgol gynradd. Uchelgais Canlyniad 1 yw cynyddu hyn o 1.2 pwynt canrannol erbyn 2019/20, drwy amrywiaeth o gamau gweithredu gan gynnwys cynyddu darpariaeth gynradd a blynyddoedd cynnar, a thrwy weithio mewn partneriaeth a hyrwyddo wedi'i dargedu.

Dengys Tabl 4 isod fanylion am y Derbyniad dosbarth Derbyn diweddar i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cynradd dwy ffrwd, sy'n symud i flwyddyn 2 a sut y bydd y ffigwr hwnnw’n symud ymlaen gyda dyrchafiad oedran hyd at 2023. Amlinella Colofnau 5 a 6 ddyheadau’r Cyngor i gynyddu'r targedau ar gyfer plant ym mlwyddyn 2, yn ychwanegol at ddyrchafiad oedran.

Dylid nodi na fydd y cynnydd o blant mewn dosbarthiadau Derbyn cyfrwng Cymraeg ym mlwyddyn academaidd 2018/19, o ganlyniad i weithgareddau hyrwyddo a/neu ddarpariaeth blynyddoedd cynnar ychwanegol, yn cael ei ddangos fel cynnydd ym mhlant blwyddyn 2 (7 oed) tan y flwyddyn academaidd 2020/21.

***Tabl 4: Amcanestyniadau a thargedau Blwyddyn 2 cyfrwng Cymraeg hyd at 2022/23.***

| Dyddiad targed | Cyfanswm poblogaeth Blwyddyn 2 (CC, CS a Ffydd) | Disgyblion amcanestynedig Blwyddyn 2 CC | % CC amcanestynedig | Targed disgyblion CC | % Targed CC |
|---|---|---|---|---|---|
| **2015/16 Cyfredol** | 4,303 | 658 | 15.2% | - | - |
| **2016/17** | 4,304 | 683 | 15.9% | - | - |
| **2017/18** | 4,390 | 670 | 15.3% | - | - |
| **2018/19** | 4,457 | 724 | 16.2% | - | - |
| **2019/20** | 4,187 | 687 | 16.4% | 687 | 16.4% |
| **2020/21** | 4,238 | 699 | 16.5% | 704 | 16.6% |
| **2021/22** | 4,232 | 703 | 16.6% | 732 | 17.3% |
| **2022/23** | 4,232 | 707 | 16.7% | 774 | 18.3% |

*Ffynonellau: Data Cofrestriadau â Meddygon Teulu GIG 2016, CYBLD 2013 – 2016, NOR Hydref 2016, Amcanestyniadau CYBLD Ionawr 2016.*

Mae mesur cyflawni Canlyniad 1 fel a ganlyn: -

**Mesur 1.1: Cynyddu’r nifer o blant saith oed sy’n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg o 1.2%, o 15.2% yn Ionawr 2016 i 16.4% erbyn 2020.**

Ni welir effaith y gweithgareddau hyrwyddo ac eraill i gynyddu nifer y plant mewn addysg cyfrwng Cymraeg i mewn i’r dosbarth Derbyn ar niferoedd disgyblion Blwyddyn 2 tan ar ôl oes y CSCA cyfredol. Gellir gweld hyn yn Nhabl 4 uchod, lle y rhagwelir erbyn 2022/23, y gallai gweithgareddau ychwanegol, ynghyd â chynnydd mewn capasiti, uwchben ac uwchlaw dyrchafiad oedran, arwain at gynnydd yn nifer y plant ym mlwyddyn 2 o hyd at 3.1%, i 18.3% yn gyffredinol.

**Mesur 1.2: Cynyddu nifer y plant oedran Derbyn sy'n mynd i addysg Gymraeg bob blwyddyn**

<u>Camau gweithredu i ymdrin â Chanlyniad 1</u>:

1. **Cynyddu darpariaeth** – I gynyddu darpariaeth lleoedd ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Cymraeg o 60 erbyn mis Medi 2017 trwy gynyddu capasiti Ysgol Hamadryad ac Ysgol Glan Morfa, a chyflenwi adeiladau ysgol newydd yn ystod y flwyddyn academaidd 2017/18. I ddechrau uwchgynllunio ysgolion Cymraeg newydd a sefydlir yn sgil safleoedd tai mawr y Cynllun Datblygu Lleol yng Ngogledd a Gorllewin Caerdydd erbyn 2020, er mwyn cynyddu nifer y plant saith oed a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg mewn blynyddoedd diweddarach

2. **Creu Partneriaethau Cryfach -** I greu dull partneriaeth cryfach i gynllunio a hyrwyddo cyfleoedd cyfrwng Cymraeg. Cyflawnir hyn drwy ragor o weithio mewn partneriaeth rhwng y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, Ymwelwyr Iechyd, Mudiad Meithrin ac ysgolion i greu cyfleoedd partneriaeth, gwella cyfathrebu a nodi blaenoriaethau cyn-ysgol. Drwy weithio gyda'i gilydd i yrru galw o'r gwaelod i fyny a rhoi cyhoeddusrwydd i wybodaeth fel y gall rhieni wneud dewis gwybodus cyn i'w plant gyrraedd yr oedran ysgol statudol.

3. **Cryfhau Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar** – Mae Cyngor Dinas Caerdydd yn cydnabod bod darparu Cylch Meithrin sy'n bartner i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn darparu dilyniant naturiol ar gyfer dyrchafiad oedran addysg statudol. Bydd hyn hefyd yn annog datblygu sgiliau a gweithio mewn partneriaeth agosach yn y blynyddoedd cynnar er mwyn sicrhau trosglwyddiad llwyddiannus. Bydd Cyngor Dinas Caerdydd a'r Mudiad Meithrin yn gweithio gyda'i gilydd i gipio gofynion gweithredol a dichonoldeb y trefniadau hyn, a byddant yn cael eu hystyried wrth gynllunio lleoedd cyfrwng Cymraeg ar draws y ddinas yn y dyfodol.

4. **Cynyddu Gweithgaredd Hyrwyddo** - I gynyddu hyrwyddo darpariaeth addysg ysgol Gymraeg drwy'r ddinas er mwyn galluogi rhieni i wneud penderfyniadau gwybodus yn gynnar ynglŷn â mantais addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg hyrwyddo a chynnal diwrnodau agored yn eu hysgolion cyn bod rhaid i rieni wneud cais am le Derbyn, i ddarparu cyfleoedd ar gyfer hyrwyddo'r iaith Gymraeg, i dorri i lawr y canfyddiadau sy'n bodoli ynglŷn ag addysg cyfrwng Cymraeg ac i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r hyn y gall addysg cyfrwng Cymraeg ei gynnig. Bydd staff yr ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gallu egluro'r cysyniad o addysg cyfrwng Cymraeg yn gynnar a holi pam fod rhieni/ gofalwyr plant oed Derbyn wedi dewis addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plant, a bwydo hyn yn ôl i'r awdurdod lleol i helpu gyda chynllunio yn y dyfodol. Hefyd cynyddir hyrwyddo drwy roi gwybodaeth i rieni am opsiynau iaith a'r cysyniad o addysg cyfrwng Cymraeg yn gynnar, a thynnu sylw at gyfleoedd i ddisgyblion drosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg yn y Llyfryn Derbyn i Ysgolion 2018/19.

Gweler gwybodaeth ychwanegol i gefnogi'r camau gweithredu ar gyfer Canlyniad Un, gan gynnwys rhestr o ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd, yn Atodiad A ar dudalen 33.

## Canlyniad 2:

## Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith ar drosglwyddiad o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd.

Ail ganlyniad strategol y CSCA yw sicrhau bod dysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith pan fyddant yn trosglwyddo o addysg gynradd i addysg uwchradd. Mesurir hyn mewn dwy ffordd wahanol. Yn gyntaf, drwy fesur nifer y disgyblion sy'n cael eu hasesu ym mlwyddyn 9 drwy gyfrwng y Gymraeg a cheisio cynyddu'r ffigwr hwn hyd at 2020, a fyddai'n dangos twf yn y sector. Yn ail, drwy olrhain y cyfraddau trosglwyddo rhwng y cyfnodau allweddol a'r Uned Drochi Gymraeg i sicrhau bod dysgwyr yn parhau mewn addysg cyfrwng Cymraeg.

Dengys Tabl 5 isod nifer y disgyblion sydd ar hyn o bryd ar y gofrestr ym mlwyddyn 9 a sut y bydd y ffigwr hwnnw yn symud ymlaen gyda dyrchafiad oedran. Dengys y canrannau y disgyblion blwyddyn 9 sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg fel canran o'r garfan gyffredinol ym mlwyddyn 9 mewn addysg cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg a Ffydd.

Yr hyn sy'n rhaid ei gydnabod, fodd bynnag, yw na welir effaith y gweithgareddau i gynyddu nifer y plant mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn achos carfanau blwyddyn 9 tan ar ôl 2020. Mae hyn oni bai fod y ddinas yn gweld nifer sylweddol o ddisgyblion yn trosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg yn hytrach na symud ymlaen trwy'r grwpiau oedran, a/neu effaith Canlyniad 1, a bod cyflawniad y targed uchelgeisiol yn cyflenwi cynnydd yn y nifer o blant 7 oed sydd mewn cyfrwng Cymraeg yn gynharach.

***Tabl 5: Dysgwyr ym mlwyddyn naw a asesir mewn Cymraeg (Iaith Gyntaf) mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ffrydiau cyfrwng Cymraeg***

| NOR/ dyddiad targed (Ionawr) | NOR ym Mlwyddyn 9 ledled y ddinas | Disgyblion cyfrwng Cymraeg at Flwyddyn 9 | % o ddisgyblion mewn CC |
|---|---|---|---|
| 2015/16 Cyfredol (Ion 2016) | 3,268 | 422 | 12.9% |
| 2016/17 (Ion 2017 - targed) | 3,389 | 456 | 13.5% |
| 2017/18 (Ion 2018 - targed) | 3,346 | 470 | 14.0% |
| 2018/19 (Ion 2019 – targed) | 3,616 | 479 | 13.2% |
| 2019/20 (Ion 2020 - targed) | 3,711 | 534 | 14.4% |

*Ffynhonnell: Ffurflen CYBLD Ionawr 2016 ac Amcanestyniadau CYBLD*

Felly, y mesurau a ddefnyddir i gyflawni Canlyniad 2 yw fel a ganlyn: -

**Mesur 2.1: Cynyddu'r nifer o ddysgwyr blwyddyn naw a asesir mewn Cymraeg (Iaith Gyntaf) o 1.5% i 14.4% erbyn 2020.**

**Mesur 2.2: Cynnal neu wella'r raddfa drosglwyddo gyfartalog ledled y ddinas rhwng Cyfnod Sylfaen i CA2, CA2 i CA3 a CA3 i CA4 o 95% erbyn 2020.**

**Mesur 2.3: Cynnal trosglwyddiad o 100% o'r Uned Drochi Gymraeg i ysgolion cyfrwng Cymraeg erbyn 2020.**

**Camau gweithredu i ymdrin â Chanlyniad 2**:

1. **Cynnal Graddfeydd Trosglwyddo** – Ar hyn o bryd mae'r cyfraddau trosglwyddo cyfartalog rhwng Cyfnod Sylfaen i CA2, CA2 i CA3 a CA3 i CA4 mewn cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd yn uchel iawn, gyda chyfradd gyfartalog o 95%. Gwelir y graddfeydd trosglwyddo isaf rhwng CA2 (Blwyddyn 3) i CA3 (Blwyddyn 7) tra bo'r graddfeydd trosglwyddo uchaf rhwng CA3 (Blwyddyn 7) a CA4 (Blwyddyn 10) (gweler Atodiad D am fanylion).

   Mae poblogaeth Caerdydd yn tyfu'n gyflym; fodd bynnag, cydnabyddir bod lefel uchel o symudedd o fewn y ddinas ac o fewn y ddinas-ranbarth ehangach. Felly, efallai na fydd cyflawni cynnydd o 100% drwy'r camau hyn yn bosibl. Fodd bynnag, bydd tîm cynllunio Addysg Cyngor Caerdydd yn ymchwilio i'r tueddiadau sy'n weladwy o fewn y data, ac yn arbennig y Cyfraddau Trosglwyddo rhwng:

   - dechrau'r Cyfnod Sylfaen (Derbyn) a dechrau CA2 (Blwyddyn 3)
   - dechrau'r Cyfnod Sylfaen (Derbyn) a diwedd CA2 (Blwyddyn 6)
   - diwedd CA2 (Blwyddyn 6) a dechrau CA3 (Blwyddyn 7)
   - dechrau CA3 (Blwyddyn 7) a dechrau CA4 (Blwyddyn 10)
   - diwedd CA3 (Blwyddyn 9) a diwedd CA4 Blwyddyn 11

   Awgryma'r data cychwynnol a gynhwyswyd yn Atodiad D bod angen gwella'r gyfradd drosglwyddo rhwng CA2 a CA3 fel blaenoriaeth; fodd bynnag, bydd y Cyngor yn adolygu pob cyfnod allweddol gyda'r nod o sicrhau bod mwy o unigolion yn cwblhau taith gyfan o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ystod eu haddysg. Bydd y Cyngor yn gweithio'n agos gydag ysgolion Cymraeg i liniaru colled rhai o'r disgyblion hynny a allai adael y sector o ganlyniad i beidio â chyflawni eu canlyniadau disgwyliedig.

2. **Annog Trefniadau Trosglwyddiad Cynnar -** Cydnabyddir bod rhai plant yn ymuno â'r sector cyfrwng Cymraeg yn ystod blynyddoedd olaf yr ysgol gynradd. Mae Cyngor Dinas Caerdydd yn cefnogi hyn trwy ddarparu Uned Drochi Gymraeg dinas-eang. Yn y blynyddoedd diwethaf, ehangwyd y ddarpariaeth drochi hon i gynnwys plant o flwyddyn 6 (a lleoliadau y tu allan i'r sir) sy'n trosglwyddo i ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg. Cydnabyddir bod yr uned hon wedi bod yn llwyddiannus wrth integreiddio plant i mewn i'r sector cyfrwng Cymraeg ar gam diweddarach; fodd bynnag, mae dyhead am i'r rhai sy'n dymuno derbyn addysg cyfrwng Cymraeg drosglwyddo ar y cyfle cyntaf posibl. Bydd Cyngor Dinas Caerdydd yn cefnogi'r rhai sy'n dymuno newid cyfrwng iaith trwy gydweithio'n agos ag ysgolion a chyrff llywodraethu i ddal dewisiadau rhieni yn gynnar. Yn ogystal â hynny, cefnogir hyn gan sefydliad parhaol o ddarpariaeth drochi cyfrwng Cymraeg.

3. **Ymgysylltu â Rhanddeiliaid i Hysbysu Cynllunio Lleoedd Ysgol Cyfrwng Cymraeg** – Mae poblogaeth Caerdydd yn tyfu'n gyflym. Agwedd bwysig ar y boblogaeth gynyddol yw sicrhau, o fewn Caerdydd Ddwyieithog, bod cynllunio lleoedd ysgol yn ystyried y galw cynyddol am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sectorau cynradd ac uwchradd. Mae hon yn ddyletswydd statudol ar y Cyngor i sicrhau digonolrwydd o leoedd ysgol. Rhan bwysig o gynllunio lleoedd ysgol yw ymgysylltu'n llawn â rhanddeiliaid, gan gynnwys ysgolion, cyrff llywodraethu, rhieni, darparwyr blynyddoedd cynnar, ymwelwyr iechyd, y Mudiad Meithrin, y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, Menter Caerdydd a'r ystod estynedig o fudiadau iaith Gymraeg, er mwyn sicrhau bod y galw yn cael ei ddal yn effeithiol.

Gweler gwybodaeth ychwanegol i gefnogi'r camau gweithredu ar gyfer Canlyniad Dau yn Atodiad B ar dudalen 38.

## Canlyniad 3:

## Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio am gymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Trydydd canlyniad strategol y CSCA yw cynyddu nifer y disgyblion 14-16 oed sy'n astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mesurir hyn mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, drwy fesur canran y dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg (iaith gyntaf) sy'n astudio am o leiaf dau gymhwyster lefel 1 neu lefel 2 pellach drwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn ail canran y dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg (iaith gyntaf) sy'n astudio o leiaf bum cymhwyster lefel 1 neu lefel 2 pellach drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dengys Tabl 6 isod nifer a chanran y dysgwyr ym mlwyddyn 11 a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg (iaith gyntaf) sy'n astudio am o leiaf ddau gymhwyster lefel 1 neu lefel 2 pellach trwy gyfrwng y Gymraeg. Ar hyn o bryd mae tua 99.7% o ddisgyblion mewn Ysgolion Uwchradd Cyfrwng Cymraeg yn ennill o leiaf 2+ o gymwysterau ar Lefel 1 neu 2 mewn Cymraeg iaith gyntaf. Mae'r targed ar gyfer 2020 wedi ei osod ar 100%, fodd bynnag, cydnabyddir na fydd hyn yn cynnwys y plant hynny sydd â datganiadau penodol o angen addysgol arbennig.

***Tabl 6: Cyfanswm y garfan ym mlwyddyn 11 gyda nifer y cofrestriadau ar gyfer 2+ o gymwysterau lefel 1 neu lefel 2 pellach mewn Cymraeg (Iaith Gyntaf)***

| Blwyddyn | Niferoedd ym Mlwyddyn 11 mewn CC | Wedi cofrestru fel CIG | Nifer yn astudio | % yn astudio |
|---|---|---|---|---|
| | | | 2+ o gymwysterau L1 neu L2 CC pellach | |
| 2015/16 Cyfredol | 365 | 361 | 360 | 99.7% |
| 2016/17 (Ion 17 - targed) | 382 | 382 | 382 | 100% |
| 2017/18 (Ion 18 - targed) | 417 | 417 | 417 | 100% |
| 2018/19 (Ion 19 – targed) | 451 | 451 | 451 | 100% |
| 2019/20 (Ion 20 - targed) | 464 | 464 | 464 | 100% |

*Ffynhonnell: CCyD - Cyflenwad data dros dro CA4 2016 (cymwysterau Iaith Gymraeg a llenyddiaeth Gymraeg wedi'u heithrio o'r cyfrifiadau).*

Dengys Tabl 7 isod nifer a chanran y dysgwyr ym mlwyddyn 11 a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) sy'n astudio o leiaf bum cymhwyster lefel 1 neu lefel 2 pellach trwy gyfrwng y Gymraeg. Ar hyn o bryd mae tua 92% o ddisgyblion mewn Ysgolion Uwchradd cyfrwng Cymraeg yn cyflawni 5+ o gymwysterau ar Lefel 1 neu 2 mewn Cymraeg iaith gyntaf. Mae'r targed i fod i gynyddu o 1% o'r naill flwyddyn i'r llall i gyrraedd 95% erbyn 2020. Fodd bynnag, cydnabyddir na fydd hyn yn cynnwys y plant hynny sydd â datganiadau penodol o angen addysgol arbennig.

***Tabl 7: Cyfanswm y garfan ym mlwyddyn 11 gyda nifer y cofrestriadau ar gyfer 5+ o gymwysterau lefel 1 neu lefel 2 pellach mewn Cymraeg (Iaith Gyntaf)***

| Blwyddyn | Niferoedd ym Mlwyddyn 11 mewn CC | Cofrestru ar fel CIG | Nifer yn astudio | % yn astudio |
|---|---|---|---|---|
| | | | **5+ o gymwysterau L1 neu L2 CC pellach** | |
| 2015/16 Cyfredol | 365 | 361 | 332 | 92% |
| 2016/17 (Ion 17 - targed) | 382 | 382 | 355 | 93% |
| 2017/18 (Ion 18 - targed) | 417 | 417 | 392 | 94% |
| 2018/19 (Ion 19 – targed) | 451 | 451 | 428 | 95% |
| 2019/20 (Ion 20 - targed) | 464 | 464 | 441 | 95% |

*Ffynhonnell: CCyD - Cyflenwad data dros dro CA4 2016 (cymwysterau Iaith Gymraeg a llenyddiaeth Gymraeg wedi'u heithrio o'r cyfrifiadau).*

Felly, y mesurau a ddefnyddir i gyflawni Canlyniad 3 yw fel a ganlyn: -

> **Mesur 3.1: Cynnal y ganran o ddysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) sy'n astudio am o leiaf ddau gymhwyster lefel 1 neu lefel 2 pellach trwy gyfrwng y Gymraeg ar 100% erbyn 2020 (Noder nad yw hyn yn cynnwys y plant hynny sydd â datganiad AAA).**
>
> **Mesur 3.2: Cynyddu'r ganran o ddysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) o leiaf bum cymhwyster lefel 1 neu lefel 2 pellach trwy gyfrwng y Gymraeg o 3% i 95% erbyn 2020 (Noder nad yw hyn yn cynnwys y plant sydd â datganiadau AAA).**

Mae'n bwysig cydnabod y bydd yr holl ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn anelu at gynhyrchu 100% o ddysgwyr â dau gymhwyster Cymraeg ar o leiaf Lefel 1. Tanategir y mesur hwn a'i yrru gan fesurau perfformiad ysgol gan gynnwys:

- *Trothwy Lefel 1*
- *Trothwy Lefel 2*
- *Lefel 2 + gan gynnwys Saesneg/Cymraeg a Mathemateg*
- *Perfformiad yn y 9 Gorau.*

Mae hefyd yn bwysig nodi, er bod targed 100% ar lefel 1 yn gyraeddadwy ar y cyfan mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg, nid yw'n darged perthnasol ar gyfer myfyrwyr mewn Canolfannau Adnoddau Arbenigol a'r rhai sydd â datganiadau penodol o AAA. Felly hyd nes y bydd y disgyblion hyn wedi cael eu gwahanu, ni fydd yn darged cyraeddadwy. Bydd ysgolion uwchradd Cymraeg yn parhau i osod targedau ar gyfer gwelliannau, ac i godi safonau.

**<u>Camau gweithredu i ymdrin â Chanlyniad 3</u>**:

1. **Annog Ehangder a Dewis Cwricwlwm i bobl ifanc 14-16 oed** – Dengys Mesur Dysgu a Sgiliau 2009 bod gan ddisgyblion yn CA4 yr hawl i roi cynnig ar ugain pwnc Lefel 2, y mae rhaid i bump ohonynt fod yn Lefel 2 Galwedigaethol. Er mwyn cynnal a darparu cwricwlwm amrywiol sy'n addas i ddiddordebau, galluoedd ac anghenion disgyblion, mae'r ysgolion uwchradd Cymraeg yng Nghaerdydd yn parhau i weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth 14-19 i ddiwallu a chyflenwi'r Mesur. Anogir ysgolion i ddefnyddio eu Grant Gwella Addysg i'r diben hwn gan y Consortiwm a'r Awdurdod Lleol ac anogir disgyblion o bob un o'r tair ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg i fanteisio ar bynciau na chynigir gan eu hysgol cyfrwng Cymraeg gartref mewn ysgol cyfrwng Cymraeg letyol, neu Sefydliad Addysg bellach lle bo'n berthnasol ac yn briodol.

2. **Hyrwyddo Cyfleoedd Drochi Cymraeg** – Fel y nodwyd yng Nghanlyniad 2, cydnabyddir bod y gyfradd drosglwyddo rhwng ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ac ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn uchel iawn ar hyn o bryd. Er mwyn sicrhau bod trosglwyddo cyfrwng Saesneg i gyfrwng Cymraeg rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd ar gael, bydd yr Awdurdod Lleol yn edrych i barhau i gefnogi'r Uned Drochi Gymraeg.

   Ar hyn o bryd, nifer cyfyngedig sy'n manteisio ar y ddarpariaeth hon ar lefel uwchradd, gan adlewyrchu'r manteision i ddysgwyr o gael mynediad neu drosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg ar y pwynt derbyn cynharaf. Fodd bynnag, bydd rieni/gofalwyr yn dal i dderbyn cyhoeddusrwydd am yr opsiwn hwn ar gyfer y rhai sy'n dymuno trosglwyddo o gyfrwng Saesneg i gyfrwng Cymraeg.

3. **Codi Safonau** - Mae'r Awdurdod Lleol a Chonsortiwm Canolbarth y De ill dau'n herio'r tair ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd er mwyn gwella'n barhaus eu safonau yn erbyn dangosyddion perfformiad. Ar ben hynny, mae'r tair ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn parhau i gefnogi ei gilydd yn eu datblygiad cwricwlwm trwy'r bartneriaeth 14-19, yn ogystal â thrwy rwydweithiau allanol a fforymau fel CYDAG. Mae'r gefnogaeth, her ac ymyrraeth hon yn darparu cyfleoedd datblygiad proffesiynol a datblygiadau yn y cwricwlwm, sy'n cefnogi gwella ysgolion yn y sector cyfrwng Cymraeg.

4. **Dathlu'n Weithredol Lwyddiannau Ysgolion Uwchradd Cyfrwng Cymraeg** – Bydd y Cyngor yn cysylltu ag Ysgolion Uwchradd Cyfrwng Cymraeg i hyrwyddo llwyddiannau carfanau er mwyn ysgogi ymwybyddiaeth a diddordeb yn y sector addysg cyfrwng Cymraeg.

## Canlyniad 4:

## Mwy o fyfyrwyr 14-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion, colegau ac yn y gweithle

Pedwerydd canlyniad strategol y CSCA yw cynyddu nifer y dysgwyr 14-19 oed sy'n astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau ac yn y gweithle. Mesurir hyn yn ôl canran y dysgwyr 16-19 oed sy'n astudio 2 neu fwy o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg, fel y dangosir yn y tabl isod.

***Tabl 8: Nifer a chanran y dysgwyr sy'n astudio 2 neu fwy o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg ar Safon Uwch:***

| Blwyddyn | Carfan 17 oed mewn CC yng Nghaerdydd | Nifer yn astudio yng Nghaerdydd | % yn astudio |
|---|---|---|---|
| | | 2+ o gymwysterau trwy CC | |
| 2015/16 Cyfredol (Ion 2016) | 252 | 229 | 90.9% |
| 2016/17 – (Ion 2017 targed) | 258 | 239 | 92.0% |
| 2017/18 – (Ion 2018 targed) | 270 | 252 | 93.3% |
| 2018/19 – (Ion 2019 targed) | 294 | 277 | 94.2% |
| 2019/20 – (Ion 2020 targed) | 318 | 302 | 95.0% |

*Ffynhonnell: CCC - Cyflenwad data dros dro CA4 2016.*

Ar hyn o bryd, o garfan o tua 252, mae tua 229 neu 90% o bobl ifanc 17 oed yn astudio 2 neu fwy o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel uwch mewn ysgolion, colegau, ac yn y gweithle yn Ninas Caerdydd. Y targed yw cynyddu'r nifer o ddisgyblion yn flynyddol i gyrraedd targed o 95% erbyn 2020.

Felly, y mesur a ddefnyddir i gyflawni Canlyniad 4 yw fel a ganlyn: -

**Mesur 4.1: Cynyddu'r ganran o ddysgwyr 17 oed sy'n astudio 2 neu fwy pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg o 4% erbyn 2020.**

**Camau gweithredu i ymdrin â Chanlyniad 4**:

1. **Annog Ehangder a Dewis Cwricwlwm i bobl ifanc 16-19 oed** – Dengys Mesur Dysgu a Sgiliau 2009 bod gan ddisgyblion 16-19 oed yr hawl i roi cynnig ar ddeg ar hugain o bynciau Lefel 3, y mae rhaid i bump ohonynt fod yn Lefel 3 Galwedigaethol. Er mwyn cynnal a darparu cwricwlwm amrywiol sy'n addas i ddiddordebau, galluoedd ac anghenion disgyblion, mae'r ysgolion uwchradd Cymraeg yng Nghaerdydd yn parhau i weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth 14-19 i ddiwallu a chyflenwi'r Mesur. Anogir disgyblion o bob un o'r tair ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg i fanteisio ar bynciau na chynigir gan eu hysgol cyfrwng Cymraeg gartref mewn ysgol cyfrwng Cymraeg letyol, neu Ganolfan Dysgu yn y Gwaith neu Addysg Bellach, lle bo'n berthnasol ac yn briodol. Dylai ysgolion ddefnyddio Gwybodaeth am y Farchnad Lafur gan Arsyllfa Dysgu a Sgiliau Cymru i lywio cynllunio'r cwricwlwm 16-19 i adlewyrchu'r farchnad lafur, gan gyfeirio'n benodol at y Diwydiannau Siarad Cymraeg.

   Mynegwyd pryderon ynghylch rhai pynciau, er enghraifft, Gofal Plant a Safon Uwch Cymraeg Iaith Gyntaf. Mae hyn oherwydd bod y data ALPs 2012-2015 yn dangos y bu gostyngiad cyson yn nifer y bobl sy'n manteisio ar Gymraeg Iaith Gyntaf yn genedlaethol. Rhaid nodi, fodd bynnag, fod y nifer sy'n manteisio ar hyn yng Nghaerdydd wedi tyfu ychydig yn y flwyddyn ddiwethaf a dengys y data bod 13 wedi cofrestru yn 2014, 12 yn 2015 a 18 yn 2016. Fodd bynnag, mae'r niferoedd hyn yn parhau i fod yn gyfyngedig er gwaethaf cyflawniad mewn TGAU Cymraeg Iaith

Gyntaf. Gallai peth o effaith hyn, ond nid y cyfan ohono, yn y tymor hir yng Nghymru fod yn brinder staff a all ddysgu Cymraeg Iaith Gyntaf ac anhawster recriwtio ar gyfer gwasanaethau cyfieithu, ac felly mae angen ymdrin â hyn ar lefel genedlaethol.

2. **Codi Safonau** - Bydd yr Awdurdod Lleol a Chonsortiwm Canolbarth y De ill dau'n herio'r tair ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd er mwyn gwella'n barhaus eu safonau yn erbyn dangosyddion perfformiad. Bydd data ALPS yn parhau i lywio a chefnogi gwelliant parhaus yn ansawdd y ddarpariaeth chweched dosbarth yn y sector uwchradd cyfrwng Cymraeg gan gymryd i ystyriaeth y wybodaeth gwerth ychwanegol wrth benderfynu ar ei gynnydd cymharol. Ar ben hynny, mae'r tair ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn parhau i gefnogi ei gilydd yn eu datblygiad cwricwlwm trwy'r bartneriaeth 14-19, yn ogystal â thrwy rwydweithiau allanol a fforymau fel CYDAG (sy'n hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog) a bydd yn adolygu'r cyfleoedd i ddatblygu cysylltiadau pellach yn y gweithle.

3. **Gwella Cyngor ac Arweiniad Diduedd -** Mae ymwybyddiaeth y disgyblion, staff, rhieni / gofalwyr o Wybodaeth am y Farchnad Lafur a'r Economi a swydd y farchnad leol yn cael ei godi er mwyn i ddisgyblion wneud dewisiadau gwybodus yn eu cwricwlwm 16-19.Bydd cyngor gyrfaoedd a ddarperir gan Gyrfa Cymru fod yn gyfredol, yn gywir ac yn adlewyrchu'r economi sy'n siarad Cymraeg. Bydd addysg a Chymraeg Alumni Siarad Uwch yn cael ei ddefnyddio i amlygu a chodi ymwybyddiaeth o broffesiynau sy'n defnyddio Cymru er mwyn codi dyheadau pobl ifanc sydd am ddilyn llwybr gyrfa yr Iaith Gymraeg. Bydd yr ysgolion uwchradd tair cyfrwng Cymraeg codi ymwybyddiaeth o bobl broffesiynol sy'n defnyddio'r iaith Gymraeg yn ddyddiol yn eu gyrfaoedd proffesiynol i godi dyheadau dysgwyr i ddilyn llwybr gyrfa iaith Gymraeg.

## Canlyniad 5:

## Mwy o fyfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg

Mae pumed canlyniad strategol y CSCA yn canolbwyntio ar gynyddu nifer y myfyrwyr sydd â sgiliau uwch yn y Gymraeg. P'un a yw disgyblion yn mynychu ysgolion Cymraeg neu Saesneg, mae'r Cyngor am gynyddu cyfran y bobl ifanc sy'n defnyddio'r Gymraeg yn hyderus. Rhennir y canlyniad i dri phrif faes:

- *Gwella darpariaeth a safonau mewn Cymraeg iaith gyntaf* – Cynyddu'r ganran o ddysgwyr Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2, Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4 sy'n cyflawni'r canlyniadau disgwyliedig mewn Cymraeg (Iaith Gyntaf)
- *Gwella darpariaeth a safonau mewn Cymraeg Ail Iaith* - Cynyddu'r ganran o ddysgwyr Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2, Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4 sy'n cyflawni'r canlyniadau disgwyliedig mewn Cymraeg (Ail Iaith).
- *Mwy o ddysgwyr â sgiliau iaith Gymraeg lefel uwch* - Codi safonau a gwella cyrhaeddiad mewn Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith ar lefel Safon Uwch.

Felly, rhennir y mesurau a ddefnyddir i gyflawni Canlyniad 5 i'r tri maes uchod fel a ganlyn: -

### Gwella darpariaeth a safonau mewn Cymraeg iaith gyntaf

#### Cyfnod Sylfaen

Mae'n amlwg dros y pedair blynedd diwethaf y bu cynnydd yn y canlyniadau cyrhaeddiad mewn Cymraeg iaith gyntaf ar ddiwedd pob cyfnod allweddol. Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae tua 93% o'r disgyblion yn cyflawni canlyniad 5 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd. Mae hyn yn gynnydd o 3 phwynt canrannol yn y pedair blynedd diwethaf ac yn dangos bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyflawni'n dda yn y Cyfnod Sylfaen. Felly, y targed ar gyfer 2020 yw cynyddu'r ganran hon i 95%.

**Mesur 5.1: Cynyddu'r ganran o ddysgwyr ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen sy'n cyrraedd o leiaf Canlyniad 5 yn y Cyfnod Sylfaen mewn Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg i 95% erbyn 2020.**

Dengys Tabl 9 isod bod Caerdydd yn perfformio uwchlaw cyfartaledd Cymru.

**Tabl 9: Caerdydd a Chymru CIG Cyfnod Sylfaen – Cyrhaeddiad Canlyniad 5+ 2013-2020**

| CS C5+ | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | Targed 2020 |
|---|---|---|---|---|---|
| Caerdydd | 86.9% | 90.5% | 92.8% | 93.1% | 95% |
| Cymru | 86.7% | 89.8% | 91.3% | 90.7% | i'w gadarnhau |

#### Cyfnod Allweddol 2

Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 mewn Cymraeg iaith gyntaf, mae tua 96.1% o ddysgwyr ar hyn o bryd yn cyrraedd lefel 4+ mewn Cymraeg iaith gyntaf. Mae hyn wedi cynyddu'n sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf gan 6.6 pwynt canrannol o ffigwr o 89.5% yn 2013. Er bod hwn yn dangos gwelliant cyffredinol, cydnabyddir bod cyfradd cyrhaeddiad o 96% yn darged realistig i'w gynnal yn y dyfodol.

**Mesur 5.2: Cynnal y ganran o ddysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 4+ mewn Cymraeg iaith gyntaf ar 96% erbyn 2020.**

Dengys Tabl 10 isod bod Caerdydd yn perfformio uwchlaw cyfartaledd Cymru.

**Tabl 10: Caerdydd a Chymru CIG Cyfnod Allweddol 2 – Cyrhaeddiad Lefel 4+ 2013-2020**

| CA2 L4+ | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2020 |
|---|---|---|---|---|---|
| Caerdydd | 89.5% | 90.1% | 93.7% | 96.1% | 96% |
| Cymru | 86.7% | 88.1% | 90.5% | 90.8% | i'w gadarnhau |

Fodd bynnag, byddai Cyngor Dinas Caerdydd yn hoffi gweld cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 5+ ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2. Yn 2015/16, perfformiodd y ddinas yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol o ran disgyblion yn cyrraedd yn uwch na'r lefel ddisgwyliedig.

**Tabl 11: Cyfnod Allweddol 2 – Lefel 5+, 2015/16**

| CA2 L5+ | 2016 |
|---|---|
| Caerdydd | 47.6% |
| Cymru | 38.0% |

Cyfnod Allweddol 3

Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mae 93.1% o ddysgwyr yn cyrraedd o leiaf lefel 5 mewn Cymraeg iaith gyntaf. Mae hyn eto wedi cynyddu dros y pedair blynedd diwethaf gan 4.6% pwynt canranool, o ffigwr o 88.5% yn 2013. Y targed ar gyfer 2020 yw cynyddu'r ffigwr hwn i 95%, gan gydnabod na fydd nifer o ddisgyblion sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig yn cyrraedd y canlyniad hwn o bosib.

**Mesur 5.3: Cynyddu'r ganran o ddysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 5 mewn Cymraeg iaith gyntaf i 95% erbyn 2020.**

Dengys Tabl 12 isod bod Caerdydd yn perfformio uwchlaw cyfartaledd Cymru.

**Tabl 12: Caerdydd a Chymru Cyfnod Allweddol 3 – Cyrhaeddiad Lefel 5+ 2013-2020**

| CA3 L5 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2020 |
|---|---|---|---|---|---|
| Caerdydd | 88.5% | 94.0% | 92.8% | 93.1% | 95% |
| Cymru | 87.6% | 90.1% | 90.9% | 92.4% | i'w gadarnhau |

Byddai Cyngor Dinas Caerdydd yn hoffi gweld cynnydd yn y disgyblion sy'n cyrraedd L6 ac L7 yng Nghyfnod Allweddol 3 i helpu i gefnogi targedau uwch yng Nghyfnod Allweddol 4.

Cyfnod Allweddol 4

Yn 2016, cyflawnodd 79% o ddysgwyr A*-C mewn TGAU Cymraeg iaith gyntaf. Cynyddodd hyn dros y pedair blynedd ddiwethaf o 75% yn 2012; fodd bynnag, nid yw'r duedd yn gyson. Yn 2014 a 2015, y ganran oedd 83% a 84% yn y drefn honno, felly, o gymharu â 2015, gwelwyd gostyngiad mewn cyflawniad o 5%. O ystyried hyn, y targed ar gyfer 2020 yw cynyddu'r ganran o ddysgwyr sy'n cyflawni A*-C mewn TGAU Cymraeg iaith gyntaf i 85%. Bydd hyn wedyn yn rhagori ar y safle a gyflawnwyd yn 2015.

**Mesur 5.4: Cynyddu'r ganran o ddysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 sydd yn cyflawni graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg iaith gyntaf i 85% erbyn 2020.**

Dengys Tabl 13 isod bod Caerdydd yn perfformio uwchlaw cyfartaledd Cymru.

**Tabl 13: Caerdydd a Chymru CIG Cyfnod Allweddol 4 – Cyrhaeddiad TGAU A* 2013-2020**

| CA4 A*-C | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2020 |
|---|---|---|---|---|---|
| Caerdydd | 81.6% | 83.0% | 84.1% | 79.8% | 85% |
| Cymru | 73.6% | 73.7% | 75.2% | 75.1% | i'w gadarnhau |

**P'un a yw disgyblion yn mynychu ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg neu gyfrwng Saesneg, uchelgais y Cyngor yw cynyddu cyfran y bobl ifanc sy'n defnyddio'r Gymraeg yn hyderus.**

**Mesur 5.5: Sicrhau bod 20% o'r cohort blwyddyn 11 yn gallu siarad Cymraeg erbyn 2020.**

<u>**Gwella darpariaeth a safonau mewn Cymraeg Ail Iaith**</u>

Mae safonau Cymraeg Ail Iaith ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 a 3 yn 77% a 80% yn y drefn honno, a'r uchelgais yw gwella'r ffigyrau hyn erbyn 2020. Ar hyn o bryd mae canran y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n ennill graddau A*-C mewn TGAU Cwrs Llawn Cymraeg Ail Iaith yn 83.2%. Dim ond 49% yw'r ganran gyfredol o ddisgyblion sy'n cyrraedd graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg ail iaith cwrs byr

Mae Llywodraeth Cymru yn newid y ffordd y caffaelir cymwysterau Cymraeg ail iaith. Asesir cymwysterau presennol Cymraeg ail iaith, y cwrs llawn a'r cwrs byr, am y tro olaf yn yr haf 2018, a dim ond un cymhwyster mewn Cymraeg ail iaith fydd ar gael o fis Medi 2018. Bydd y cymhwyster cwrs byr Cymraeg ail iaith yn cydredeg â'r cwrs llawn Cymraeg ail iaith newydd o fis Medi 2017, a dim ond un cymhwyster Cymraeg ail iaith fydd ar gael o fis Medi 2018.

O ran addysgu Cymraeg yn y cwricwlwm, mae disgwyliad statudol ar ysgolion i addysgu Cymraeg i bob disgybl hyd at ddiwedd Cyfnod Allweddol 4. Fodd bynnag, nid yw canllawiau Llywodraeth Cymru yn datgan y bydd yr arholiad ar gyfer y cwrs llawn newydd yn statudol. O ran cymwysterau, byddai Llywodraeth Cymru yn hoffi i bob ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg gyflwyno'r cwrs llawn iaith Gymraeg newydd.

Ar hyn o bryd mae disgyblion mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg yn gallu cwblhau cyrsiau Cymraeg Ail Iaith ym mlwyddyn 10 neu rannu'r cyrsiau 50/50 ar draws blwyddyn 10 a blwyddyn 11. Noda canllawiau newydd Llywodraeth Cymru mai dim ond 25% o asesiad y cwrs llawn newydd y gall disgyblion ei gwblhau ym mlwyddyn 10 gyda'r 75% sy'n weddill ym mlwyddyn 11, gan ddileu'r opsiwn i gwblhau cymhwyster Cymraeg ail iaith yn gynnar.

Er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol y newidiadau hyn, bydd y tri Hwb Cymraeg Ail Iaith o fewn Consortiwm Canolbarth y De (Ysgol Uwchradd Caerdydd, Treorci a'r Bont-faen) yn ogystal â chynrychiolwyr o Gonsortiwm Canolbarth y De (CCyD) a Gwasanaeth Cyflawniad Addysg ar gyfer De Ddwyrain Cymru (EAS) yn cyfarfod ym mis Chwefror 2017 i drafod y ffordd orau ymlaen. Yn dilyn hyn, bydd Cyngor Dinas Caerdydd yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg a Chonsortiwm Canolbarth y De er mwyn monitro effaith y newidiadau ar y cwricwlwm a'r nifer sy'n sefyll TGAU Cymraeg ail iaith a cheir diweddariad cynnydd blynyddol trwy gyfrwng y CSCA. Gellir cael mwy o wybodaeth ar y ddolen ganlynol: http:// http://qualificationswales.org/development/changes-to-gcse-welsh-second-language/?lang=cy&

**Mesur 5.5: Cynyddu'r ganran o ddysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 4 mewn Cymraeg ail iaith i 80% erbyn 2020.**

**Mesur 5.6: Cynyddu'r ganran o ddysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 5 mewn Cymraeg ail iaith i 83% erbyn 2020.**

**Mesur 5.7: Cynyddu'r ganran o ddysgwyr sy'n astudio'r cwrs llawn TGAU Cymraeg ail iaith i o leiaf 80% erbyn 2020.**

**Mesur 5.8: Cynyddu'r ganran o'r cohort blwyddyn 11 sy'n cyflawni graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg ail iaith i 40% erbyn 2020.**

**Mwy o ddysgwyr â sgiliau iaith Gymraeg lefel uwch**

Ar hyn o bryd mae canran y disgyblion sy'n astudio ar gyfer Safon Uwch Cymraeg Iaith Gyntaf fel canran o'r rhai a oedd yn ei hastudio ar lefel TGAU yn sefyll ar 4.8%. Mae hyn yn dangos cynnydd ymylol yn ystod y tair blynedd ddiwethaf o lai na 1%, a gall hyn adlewyrchu'r ffaith mai dim ond 15% o ddisgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg sy'n dod o gartrefi Cymraeg eu hiaith. Er bod nifer a chanrannau'r disgyblion yn isel, mae'r data serch hynny yn dangos cynnydd yn y nifer sy'n manteisio ar Safon Uwch Cymraeg (Iaith Gyntaf). Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth ag ysgolion i sicrhau bod nifer y rhai sy'n manteisio ar y cymhwyster safon uwch hwn yn aros yn gyson, gyda tharged i gynyddu'r nifer i 5.5% o'r garfan erbyn 2020.

Yn ogystal, mae canran y disgyblion sy'n astudio ar gyfer Safon Uwch Cymraeg Ail Iaith fel canran o'r rhai a oedd yn ei hastudio ar lefel TGAU yn sefyll ar ddim ond 1.2%. Cydnabyddir nad yw'r cymhwyster hwn yn ddewis amlwg ymhlith oedolion ifanc ac efallai mai un o'r rhesymau dros y nifer isel iawn yw'r ffaith nad ydynt mor hyderus wrth ddefnyddio'r iaith i ennill cymhwyster safon uwch ar hyn o bryd. Serch hynny, mae'n uchelgais a rennir gan y cyngor a'r ysgolion i geisio gwella hyn, gyda tharged o 2% erbyn 2020.

**Mesur 5.9: Cynyddu cyfanswm y rhai sy'n cofrestru ar gyfer Safon Uwch Cymraeg iaith gyntaf (fel canran o gofrestriadau TGAU Cymraeg iaith gyntaf ddwy flynedd ynghynt) i 5.5% erbyn 2020.**

**Mesur 5.10: Cynyddu cyfanswm y rhai sy'n cofrestru ar gyfer Safon Uwch Cymraeg Ail Iaith (fel canran o gofrestriadau Cwrs Llawn TGAU Cymraeg Ail Iaith ddwy flynedd ynghynt) i 1% erbyn 2020.**

**Camau gweithredu i ymdrin â Chanlyniad 5**:

1. **Gwella Llythrennedd Gymraeg** – Mae codi safonau mewn llythrennedd Gymraeg/ iaith Gymraeg yn flaenoriaeth gwelliant benodol yng nghynllun busnes Consortiwm Canolbarth y De. Golyga hyn bod cyflawni gwelliant mewn canlyniadau dysgwyr yn y Gymraeg yn ffactor allweddol pan fydd y consortiwm yn cynllunio darpariaeth hyfforddiant ysgol hwb a phob agwedd arall ar ei weithgarwch gwella ysgolion. Mae'r canlyniadau ar gyfer y Gymraeg wedi gwella'n ddramatig ar draws y rhanbarth ers 2012, gyda chynnydd arbennig o arwyddocaol mewn canlyniadau sydd uwchlaw'r lefelau disgwyliedig yn y Cyfnod Sylfaen i CA3. Cynyddodd canran y disgyblion sy'n cyflawni gradd A-C mewn TGAU Cymraeg ar draws y consortiwm o bron i 9 pwynt canran ers 2012/13, i 85.9%. Ceir gwelliannau pellach drwy, er enghraifft, barhau i ddatblygu rhaglenni dysgu proffesiynol ar gyfer ymarferwyr a ddyluniwyd:

   - I wella sgiliau ieithyddol yr ymarferwyr eu hunain
   - I wella addysgu trwy e.e. darparu hyfforddiant ar y cynllun NAiD (asesu ar gyfer dysgu, cinio cynnydd, datblygu dysgu rhyngddibynnol, dysgu seiliedig ar ymholi, datblygu gweithgareddau)
   - I wella arweinyddiaeth drwy ddarparu rhaglenni arweinyddiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg i benaethiaid newydd ac arweinwyr canol.

- I ymgorffori arfer addysgu Cymraeg llwyddiannus mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ar draws y rhanbarth (rhaglenni a gynigir gan ysgolion y mae eu darpariaeth Cymraeg Ail Iaith gyfredol yn dda).

2. **Ystyried yr iaith Gymraeg o fewn Datblygiad Ehangach y Ddinas** - Mae mewnfudo ac allfudo yn cael effaith fawr ar ardaloedd ar draws Caerdydd. Symudodd llawer o bobl ifanc, rhai ohonynt yn siarad Cymraeg a rhai'n ddi-Gymraeg, o'u cymunedau i chwilio am waith yn y ddinas. Mae angen i Gaerdydd allu cynnig cyfleoedd i'r holl siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd a'u hannog i wneud hynny, beth bynnag fo lefel eu rhuglder. I gefnogi'r nod hwn mae'r Cyngor wedi sefydlu Canolfan Gymraeg yn yr Hen Lyfrgell i hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg yng nghanol y brifddinas.

   Mae Caerdydd yn ddinas amlddiwylliannol ac mae ganddi uchelgais i fod y brifddinas orau i fyw ynddi yn Ewrop. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, denwyd cryn dipyn o fewnfuddsoddiad i Gaerdydd, i sectorau megis Gwasanaethau Ariannol, Proffesiynol a Busnes; Sectorau Creadigol a Digidol; Gweithgynhyrchu Uwch a Gwyddorau Bywyd. Mae'r rhan fwyaf o'r cwmnïau hyn yn gwasanaethu marchnadoedd cenedlaethol a rhyngwladol a'u blaenoriaeth recriwtio yw sicrhau sylfaen o weithwyr gyda'r sgiliau cywir a'r wybodaeth dechnegol ar gyfer eu sector, a all gynnwys capasiti ieithyddol. Ystyriaeth bwysig i gwmnïau sy'n gwasanaethu marchnadoedd lleol o fewn ac ar draws Cymru yw cyflogi gweithwyr sydd â sgiliau iaith Gymraeg lefel uwch. Mae'r sectorau sydd â rhyngwyneb uwch yng Nghaerdydd gyda marchnadoedd lleol yn cynnwys: Hamdden a Lletygarwch, Adrannau'r Llywodraeth a Phrosiectau Adfywio Lleol. Mae Cyngor Dinas Caerdydd yn rhagweld lefel uchel barhaus o fuddsoddi ac adfywio yn y ddinas. Ar gyfer y cwmnïau hynny a allai fod â diddordeb mewn gwasanaethu Cymru neu rannau o Gymru, bydd y cyngor yn parhau i hyrwyddo galluoedd iaith amrywiol, gan gynnwys yr iaith Gymraeg, i ddenu cyfleoedd mewnfuddsoddi.

   Hefyd bu'r Cyngor yn paratoi adroddiadau sector ar economi Caerdydd i helpu ysgolion ddeall newidiadau yn y farchnad lafur leol ac i nodi cyfleoedd gyrfa newydd. Rhennir y rhain gydag ysgolion fel y rhoddir mwy o bwyslais ar gynllunio a sgiliau'r gweithlu, gan fod y Cyngor yn cydnabod dyhead Llywodraeth Cymru yn ei Strategaeth Dyfodol Llwyddiannus i weld anghenion cyflogwyr a'r gweithle fel elfennau hanfodol os yw pobl ifanc i symud ymlaen yn esmwyth ac yn llwyddiannus i gyflogaeth.

3. **Mwy o amlygiad i'r iaith Gymraeg tu allan i oriau ysgol** – Yn dilyn cyfnod gwyliau'r haf o'r ysgol, awgryma adborth anecdotaidd gan ymarferwyr ysgolion cyfrwng Cymraeg bod nifer o ddisgyblion nad ydynt yn siarad Cymraeg yn ystod y cyfnod hwn angen amlygiad dwys tymor byr i'r iaith. Er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn dod yn iaith fyw yng Nghaerdydd, bydd y Cyngor yn parhau i ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio ac ymarfer eu sgiliau iaith Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol trwy, er enghraifft, hyrwyddo darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg tu allan i'r ysgol drwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. Mae angen i bob darparwr fabwysiadu dull amlasiantaeth o hyrwyddo beth sydd ar gael a phryd, gan y dylai hyn ganiatáu i gynulleidfa fwy gael mynediad i'r gwasanaethau.

   Trwy dîm cyfathrebu corfforaethol y Cyngor ac ysgolion unigol, byddwn yn hyrwyddo cyfleusterau sydd ar gael ar draws y ddinas lle ceir cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg, megis Yr Hen Lyfrgell yn cynnig clybiau fel gweithdai animeiddio a dawns a Bwrlwm, Sesiynau Chwarae Mynediad Agored cyfrwng Cymraeg, a drefnir mewn

partneriaeth rhwng Menter Caerdydd, Adran Chwaraeon Urdd Gobaith Cymru a Chyngor Caerdydd.

Mae'n bwysig ac arwyddocaol fod Dinas Caerdydd yn cynnal Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn 2018 ac Eisteddfod yr Urdd yn 2019, gan roi nifer o gyfleoedd i deuluoedd a phobl ifanc ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg y tu allan i oriau ysgol mewn amgylchedd ddiwylliannol ysgogol ac amrywiol.

Os yw disgyblion sy'n mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg yn dod o deuluoedd di-Gymraeg, maent yn tueddu i droi'n ôl at y Saesneg ar ôl iddynt adael yr ysgol am y dydd, a bydd yn bwysig i ysgolion gynyddu eu gwaith ac ymgysylltu gyda Menter Caerdydd ac Urdd i gynyddu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg.

4. **Meithrin partneriaethau rhwng ysgolion cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg** – Yn ogystal â darparu lleoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg newydd, mae'r Cyngor hefyd yn rhoi cyfleoedd pellach i ddisgyblion mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg dderbyn mwy o amlygiad i'r iaith Gymraeg. Gellid cyflawni hyn drwy gyflwyno cynlluniau peilot i ddatblygu ymhellach bartneriaethau ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg gydag ysgol gynradd cyfrwng Saesneg, er mwyn cynyddu'r rhyngweithio rhwng disgyblion ac athrawon trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Canlyniad 6:

## Darpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Chweched canlyniad strategol y CSCA yw sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Bydd Cyngor Dinas Caerdydd yn mesur y canlyniad hwn trwy nifer y lleoedd sydd ar gael mewn CAA cyfrwng Cymraeg. Cydnabyddir gyda chynnydd yn y boblogaeth amrywiol o fewn y ddinas y bydd angen am leoedd CAA ychwanegol mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg.

Dengys Tabl 14 isod nifer y lleoedd sydd ar gael, neu ar y gweill, mewn Dosbarthiadau Ymyrryd yn Gynnar (DYG) CAA cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg).

***Tabl 14: Nifer o leoedd mewn CAAau cyfrwng Cymraeg a'r cynnydd capasiti cynlluniedig***

| Blwyddyn | Nifer o leoedd CAA & DYG Cynradd | Nifer o leoedd CAA Uwchradd | Nifer o leoedd CA2 EIC | Nifer o leoedd BESD Uwchradd | Cyfanswm lleoedd |
|---|---|---|---|---|---|
| 2015/16 Cyfredol | 8 | 10 | - | - | 18 |
| 2016/17 – (Ion 2017) | 8 | 12 | 8 | - | 28 |
| 2017/18 – (Ion 2018) | 8 | 16 | 8 | 2 | 34 |
| 2018/19 – (Ion 2019) | 8 | 20 | 8 | 4 | 40 |
| 2019/20 – (Ion 2020) | 8 | 20 | 8 | 6 | 42 |

*Ffynhonnell: CCC – Uwch Arweinydd Cyflawniad - Cynhwysiant*

Felly, y mesurau a ddefnyddir i gyflawni Canlyniad 6 yw fel a ganlyn: -

**Mesur 6.1: Cynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael mewn CAAau cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg o 18 o leoedd i 42 erbyn Medi 2020.**

**Camau gweithredu i ymdrin â Chanlyniad 6**:

1. **Adolygu'r CAA Cynradd a chynyddu nifer sy'n manteisio ar leoedd o 50% i 100% -** Yn 2016-17 mae nifer y disgyblion sy'n mynychu'r CAA wedi gostwng i 4. Ceir disgyblion yn y sector a fyddai'n bodloni'r meini prawf i fynychu, ond mae eu rhieni wedi dewis cefnogaeth yn y brif ffrwd fel eu darpariaeth ddewisol. Bydd yr awdurdod lleol yn gweithio gydag ysgolion a'r gwasanaeth partneriaeth â rhieni (SNAP) i nodi'r rhesymau dros y dewis hwn, a nodi sut i wneud y defnydd mwyaf posibl o'r lleoedd CAA. Yn dibynnu ar ganfyddiadau'r adolygiad, gallai'r dewisiadau ar gyfer datblygu yn y dyfodol gynnwys:
    a. Codi proffil y CAA i ddenu mwy o rieni; neu
    b. Newid y dull o weithredu i CAA allgymorth Cymraeg, gan ddarparu cymorth arbenigol i ddisgyblion CAA yn eu hysgol leol eu hunain, os mai dyma ddewis y rhieni.

2. **Sefydlu lleoliad tymor hir ar gyfer y Dosbarth Ymyrraeth Gynnar Cynradd a chynyddu nifer sy'n manteisio ar leoedd o 60% i 100% -** Agorwyd y dosbarth hwn yn nhymor yr haf 2016, i ddarparu lleoedd cyfyngedig o ran amser i 8 o ddisgyblion CA2 sy'n profi anawsterau ymddygiad cymdeithasol ac emosiynol. Mae'r dosbarth wedi ei leoli dros dro ar safle uwchradd ond bydd angen ei drosglwyddo i leoliad ysgol gynradd parhaol yn 2017. Nid yw'r dosbarth yn llawn ar hyn o bryd, gyda 5 allan o 8 lle a ariennir wedi eu llenwi, gan roi cyfle i ateb y galw wrth i hyn gynyddu.

3. **Ymestyn capasiti yn y CAA Uwchradd (yn Ysgol Glantaf) o 12 lle i 20, gyda lle i ehangu ymhellach ar ôl 2020 -** Er bod mwyafrif y disgyblion ag anghenion dysgu cymhleth yn mynychu eu hysgol gynradd cyfrwng Cymraeg leol, drwy ddewis y rhieni, mae'r rhan fwyaf o'r teuluoedd yn dewis lle CAA yn y cyfnod uwchradd. Mae'r lleoedd a ariennir wedi cynyddu o 7 yn 2012, i 12 yn 2016. Rhagamcanir y bydd y galw yn cyrraedd 20 erbyn 2018-19. Mae'r llety wrthi'n cael ei adolygu ar hyn o bryd, gyda golwg ar ymestyn y lleoedd, gan gynnwys hyblygrwydd ar gyfer twf pellach yn y blynyddoedd dilynol.

4. **Sefydlu lleoedd uwchradd ar gyfer disgyblion ag anghenion ymddygiad emosiynol cymdeithasol (BESD) gyda nifer derbyn o 1-3 o leoedd bob blwyddyn –**

   Mae CAA Glantaf yn arbenigo mewn cymorth ar gyfer anawsterau dysgu cymhleth ond mae hefyd angen cynyddol am leoedd arbenigol ar gyfer disgyblion sy'n cyflwyno gyda BESD tymor hir, difrifol.

   Mae gweithgor o Benaethiaid cyfrwng Cymraeg, CAAA a staff arbenigol wedi cael ei sefydlu i adolygu'r ddarpariaeth ADY bresennol, a bydd yn cynnwys ystyried data disgyblion. Gweithredir y broses hon gyda golwg ar gytuno ar lefelau priodol o ddarpariaeth ar gyfer plant ag ADY yn y sector cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol. Fel rhan o hyn, mae angen gwneud ymarferiad mapio a fydd yn llywio'r cynlluniau ar gyfer darpariaeth arbenigol yn y dyfodol, i BESD ac ASD. Datblygir ffyrdd priodol o weithredu'r lefelau cytunedig o ddarpariaeth y tu allan i'r gweithgor hwn, gyda mewnbwn gan randdeiliaid.

## Canlyniad 7:

## Cynllunio'r gweithlu a datblygu proffesiynol parhaus

Mae seithfed canlyniad strategol y CSCA yn ffocysu ar dri maes:

- Datblygu sgiliau iaith Gymraeg a'r gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg y gweithlu addysgu.
- Adnabod a datblygu arweinwyr ysgolion i'r dyfodol i ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- Datblygu'r cymorth ysgol i ysgol ymhellach drwy strwythurau ysgol hwb ac arloesi

Bydd Consortiwm Canolbarth y De (CCyD) yn chwarae rôl allweddol o ran cyflwyno archwiliadau sgiliau iaith Gymraeg a chynllunio a chyflenwi cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus yn y sector cyfrwng Cymraeg.

**Camau gweithredu i ymdrin â Chanlyniad 7**

1. **Datblygu'r gweithlu addysgu** - Nid yw nifer yr athrawon/ lefel y sgiliau sydd eu hangen i weithredu'r cwricwlwm newydd ar gyfer y Gymraeg eto'n glir. Fodd bynnag, bydd y consortiwm yn defnyddio data gweithlu i barhau i gynllunio rhaglenni dysgu proffesiynol sy'n adlewyrchu anghenion y gweithlu rhanbarthol. Mae'r Consortiwm hefyd yn gweithio'n agos gyda darparwyr Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon i ddatblygu a chyflenwi ar y cyd raglenni i athrawon sydd newydd gymhwyso (gan ysgolion a SAUau). Mae'r rhain yn cael eu cynllunio i adlewyrchu gofynion y cwricwlwm newydd a byddant yn cynnwys datblygu gweithlu â chymwysterau addas i gyflwyno'r continwwm Cymraeg.

   Yn y tymor byrrach, mae recriwtio i swyddi addysgu penodol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn parhau i fod yn her. Mae Mathemateg, Gwyddorau a Saesneg yn arbennig o heriol. Ymdrinnir â hyn drwy ddarpariaeth 'hwb' sy'n cynnig hyfforddiant i'r rhai nad ydynt yn arbenigwyr er mwyn eu galluogi i addysgu pynciau heblaw eu prif arbenigedd yn effeithiol. Nid yw nifer y cynorthwywyr addysgu/ lefel y sgiliau iaith sydd eu hangen i weithredu'r cwricwlwm newydd ar gyfer y Gymraeg yn effeithiol eto'n glir. Fodd bynnag, bydd y consortiwm yn defnyddio data gweithlu i barhau i gynllunio rhaglenni dysgu proffesiynol sy'n adlewyrchu anghenion y gweithlu rhanbarthol. Mae cyrff llywodraethu ysgolion a Phenaethiaid yn gweithio gyda swyddogion yn adrannau Addysg ac Adnoddau Dynol yr ALl er mwyn cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor a'r polisi recriwtio wrth hysbysebu swyddi ar gyfer ymarferwyr i gefnogi addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

   Hefyd bydd yr Awdurdod Lleol a'r CCyD yn gweithio gydag ysgolion er mwyn datblygu'r gweithlu:

   - Penaethiaid i sicrhau bod nifer ddigonol o ymarferwyr i gyflwyno addysg cyfrwng Cymraeg.
   - Cyrff llywodraethu i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â pholisi cynllun iaith Gymraeg a recriwtio'r Cyngor wrth hysbysebu ar gyfer ymarferwyr i gefnogi addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
   - Consortiwm Canolbarth y De i hyrwyddo rhaglenni arweinyddiaeth lefel ganol ledled y sector cyfrwng Cymraeg.
   - Consortiwm Canolbarth y De i hyrwyddo'r rhaglenni darpar arweinwyr gydag arweinwyr lefel ganol a Dirprwy Benaethiaid mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

- Ysgolion Caerdydd i sicrhau bod capasiti yn cael ei adeiladu i mewn i uwchsgilio arweinwyr posibl yn y dyfodol.
- Ysgolion i sicrhau bod yr holl gynorthwywyr addysgu sydd newydd eu penodi yn ymarferwyr ieithyddol medrus.
- Ysgolion i gefnogi cyfleoedd hyfforddiant i ddatblygu sgiliau ieithyddol cynorthwywyr dosbarth.
- Consortiwm Canolbarth y De i ddadansoddi anghenion datblygu'r gweithlu er mwyn cynllunio rhaglenni arweinyddiaeth a datblygu addysgu yn y dyfodol.

2. **Sicrhau Arweinyddiaeth Cyfrwng Cymraeg Effeithiol** - Mae recriwtio i swyddi penaethiaid ysgolion cyfrwng Cymraeg yn heriol. Mae nodi, datblygu a chefnogi arweinwyr ysgolion hefyd yn flaenoriaeth strategol i'r rhanbarth ehangach. Cynhwysa'r cymorth, datblygu a strategaeth recriwtio gynyddu nifer y rhaglenni hyfforddi sydd ar gael i arweinwyr ysgolion yn y sector cyfrwng Cymraeg. Mae hefyd wedi cynnig gwneud y rhaglenni ar gael i ranbarthau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys:

   - Rhaglen achrededig 'Newydd i Brifathrawiaeth' i gael ei chyflenwi drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y flwyddyn academaidd 2016/17;
   - Mae'r rhaglen 'Prifathrawiaeth Nawr' (i arweinwyr canol sydd eisiau dilyn gyrfa fel penaethiaid) yn cael ei threialu ar hyn o bryd.
   - Bydd yr ysgolion 'hwb' uwchradd cyfrwng Cymraeg yn cyflenwi rhaglen 'arweinyddiaeth ganol' yn ystod y flwyddyn academaidd hon.

   **Mae mentrau eraill yn cynnwys: -**

   - Uwch Arweinydd mewn Addysg yn cael ei recriwtio ar hyn o bryd i ddatblygu a chefnogi arweinyddiaeth mewn ysgolion sy'n wynebu her.
   - Cyllidir yr ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg i weithio mewn Grŵp Gwella Ysgolion ar arweinyddiaeth: datblygu arweinwyr canol, rhannu arfer da, a nodi arweinwyr y dyfodol.
   - Ceir ymgyrch recriwtio sy'n anelu at ddenu arweinwyr i weithio fel penaethiaid yng Nghymru, gan gynnwys penaethiaid cyfredol sy'n ymarferwyr Cymraeg eu hiaith, sy'n gweithio rywle arall ar hyn o bryd.
   - Mae'r consortiwm yn cyflwyno rhaglen cymorth ar gyfer ysgolion sy'n dymuno ffedereiddio. Mae hon yn agored i bob ysgol. Bydd yn ofynnol i ysgolion a ddewisir ar gyfer y rhaglen gymorth ddangos y bydd ffedereiddio yn:
     - Cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr
     - Cynyddu capasiti arweinyddiaeth yn yr ysgolion

   *Noder: Mae gwerthuso effaith ar ymarferwyr a dysgwyr y rhaglenni, hybiau a gweithgarwch y Grŵp Gwella Ysgolion yn rhan o raglen ymchwil barhaus y consortiwm ar y cyd â Phrifysgol Caerdydd.*

3. **Datblygu gwaith Hwb/Arloesi -** Mae ysgolion yn symud yn gynyddol i fodel lle maent yn nodi eu hanghenion cymorth, ac yn comisiynu'r cymorth hwnnw gan ddarparwyr effeithiol o fewn y sector. Mae ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd (Ysgol Glantaf, Ysgol Bro Edern ac Ysgol Plasmawr) yn darparu rhaglenni cwricwlwm a dysgu proffesiynol i ysgolion ar draws y rhanbarth. Mae hyn yn rhan o fodel 'hwb' newydd lle mae'r ysgolion yn dadansoddi eu hanghenion datblygu a chael gafael ar/ cynnig y cymorth sydd ei angen yn seiliedig ar werthusiad o arfer gorau.

   Hefyd mae ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ar draws y rhanbarth wedi ffurfio ffederasiwn y maent i gyd yn perthyn iddo. Bydd y ffederasiwn, a gefnogir gan CCyD,

yn gyrru'n gynyddol gynnig cefnogaeth y rhanbarth drwy adnabod anghenion cefnogaeth y sector. Mae'r ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd yn weithgar iawn mewn gwaith grŵp gwella ysgol, sydd wedi'i ddylunio'n benodol i ymateb i angen y sector. Er enghraifft. arweinir y gwaith ar ddatblygu arweinyddiaeth ysgolion gan Ysgol Treganna.

Mae gan y Consortiwm bedwar Ymgynghorydd Her sydd wedi'u halinio i ysgolion cyfrwng Cymraeg, i sicrhau bod ysgolion yn cael eu paratoi i ysgogi a chynnal gwelliannau o ran codi safonau a darparu darpariaeth addysgol o ansawdd uchel.

Paratôdd Hwb Uwchradd Cymru gyfres o raglenni ar gyfer ymarferwyr Cymraeg Ail Iaith yn Ysgol Uwchradd Caerdydd. Maent hefyd yn cynnig cymorth pwrpasol am ddim i ysgolion sydd yn y categorïau coch neu oren. Bydd gwella sgiliau iaith staff, yn enwedig mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yng Nghaerdydd, yn hanfodol wrth weithredu'r weledigaeth Dyfodol Llwyddiannus. Mae gan ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg fynediad at raglen eang ac amrywiol o DPP trwy raglen y Gwasanaeth Cyflawni Addysg o hyfforddiant iaith a methodoleg.

Bydd y consortiwm hefyd yn:

- Parhau i gefnogi rhwydweithiau ysgolion cyfrwng Cymraeg i rannu a datblygu arfer da.
- Gweithio gyda'r rhwydwaith hwb/arloesi i ddatblygu'r continwwm Cymraeg a sicrhau bod rhaglen ddysgu broffesiynol y consortiwm wedi ei chynllunio i ymateb i anghenion datblygu'r gweithlu mewn perthynas â'r cwricwlwm newydd.

Mae Consortiwm Canolbarth y De wedi penodi swyddog safonau a pholisi Cymraeg i gefnogi'r Siarter Iaith Gymraeg a phroject Cefnogi Arferion Pobl Ifanc.

## 3.0 Symud Ymlaen

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerdydd yn cwmpasu cyfnod o dair blynedd yn dechrau Ebrill 2017 - Mawrth 2020. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y system addysg yn elfen allweddol i sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg, ac i greu siaradwyr Cymraeg newydd.

Mae gan Gaerdydd, fel prifddinas Cymru, rôl allweddol i sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i fod yn iaith fyw a bywiog a bod dwyieithrwydd yn cael ei ddathlu drwy'r cyfan o addysg ein plant a phobl ifanc yn ein dinas ddeinamig.

Mae Cyngor Dinas Caerdydd yn cydnabod pwysigrwydd y CSCA o ran cyfrannu at gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, yn ogystal ag un o amcanion Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 lle mae "gan Gymru iaith Gymraeg fywiog a ffyniannus".

Mae CSCA Caerdydd 2017-2020 hefyd yn rhan annatod o strategaeth 5 Mlynedd Caerdydd Ddwyieithog gyda'r ddwy ddogfen yn rhannu uchelgais i greu Gaerdydd ddwyieithog lle mae'r iaith Gymraeg yn cael ei diogelu a'i meithrin i genedlaethau'r dyfodol ei ddefnyddio a'i mwynhau. Blwyddyn gyntaf gweithredu Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog fydd 2017. Fel y cyfryw, bydd cynnydd blynyddol y CSCA hefyd yn cael ei gefnogi gan yr ymyriadau a chamau gweithredu a ddarperir yn y strategaeth ledled y ddinas.

Mae'r CSCA tair blynedd hwn yn nodi targedau clir sy'n cyfrannu at y gweledigaethau uchod ac mae'n cynnwys 19 o fesurau i olrhain a monitro'n effeithiol sut mae Caerdydd yn cyflenwi ei hymrwymiad i sicrhau mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg o'r ansawdd orau i bawb. Amlinellir y rhain trwy'r ddogfen ac fe'u crynhoir yn Atodiad D.

Mae'r CSCA hwn yn cydnabod y gwelliannau a wnaed yn y blynyddoedd diwethaf, ond mae'n nodi bod angen gwneud mwy, a gellir gwneud mwy. Mae awydd cryf o fewn y system a sefydliadau ysgolion ar draws Caerdydd i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg ac i greu siaradwyr newydd. Golyga hyn bod rhaid i gyfleoedd ar gyfer siarad a defnyddio'r Gymraeg fod yn eang ac amrywiol drwy gydol eu plentyndod ac i mewn i fywyd fel oedolion er mwyn cyflawni hyn.

Mae'n bwysig cydnabod bod adnoddau yn gyfyngedig, felly mae ffocws gwirioneddol ar sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau, ac i ddatblygu partneriaethau cryf sy'n ein galluogi i gyflwyno canlyniadau gwell o sylfaen adnoddau sy'n lleihau.

.

## Atodiad A – Gwybodaeth atodol i Ganlyniad 1:

## Mwy o blant 7 oed yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg

### Darparu addysg cyfrwng Cymraeg

Mae mwyafrif yr ysgolion Cymraeg yn y ddinas yn darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg (ffrydiau cyfrwng Cymraeg yn unig). Golyga hyn bod pob disgybl sy'n mynychu'r ysgolion hyn yn derbyn eu holl wersi yn y Gymraeg. Mae dwy ysgol yn y ddinas, Gwaelod y Garth a Chreigiau, sy'n cynnig mynediad dwy ffrwd. Nid oes gan Gaerdydd unrhyw ysgolion dwyieithog.

Dengys Tabl 15 isod yr ysgolion cyfrwng Cymraeg ar draws y ddinas, y Nifer Derbyn Cyhoeddedig ar gyfer pob ysgol, niferoedd y disgyblion sydd wedi cofrestru, a chapasiti cyflawn yr ysgolion..

***Tabl 15: Ysgolion sy'n cyflenwi addysg cyfrwng Cymraeg ar draws Caerdydd:***

| Enw'r Ysgol | Ward | PAN Medi 2016 | Disgyblion y dosbarth Derbyn (Hyd 16) | Capasiti Cyflawn | NOR (Hydref 2016) |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Creigiau (Ffrwd CC) | Creigiau & Sain Ffagan | 29 | 26 | 210 | 182 |
| Ysgol Bro Eirwg | Llanrhymni | 60 | 60 | 411 | 397 |
| Ysgol Coed-Y-Gof | Tyllgoed | 60 | 59 | 389 | 355 |
| Ysgol Glan Ceubal | Ystum Taf | 30 | 23 | 147 | 95 |
| Ysgol Glan Morfa | Sblot | 30 | 29 | 210 | 181 |
| Ysgol Gwaelod Y Garth (Ffrwd CC) | Pentyrch | 26 | 30 | 184 | 194 |
| Ysgol Hamadryad | Grangetown / Butetown | 30 | 17 | 30 | 17 |
| Ysgol Melin Gruffydd | Yr Eglwys Newydd & Thongwynlais | 60 | 59 | 420 | 412 |
| Ysgol Mynydd Bychan | Gabalfa | 30 | 29 | 192 | 204 |
| Ysgol Nant Caerau | Caerau | 30 | 31 | 210 | 200 |
| Ysgol Pwll Coch | Treganna | 60 | 59 | 510 | 440 |
| Ysgol Pen y Groes | Pentwyn | 30 | 27 | 169 | 96 |
| Ysgol Pen Y Pil | Trowbridge | 30 | 31 | 210 | 170 |
| Ysgol Pencae | Llandaf | 30 | 30 | 186 | 210 |
| Ysgol Y Berllan Deg | Pentwyn | 60 | 61 | 420 | 393 |
| Ysgol Treganna | Treganna | 90 | 90 | 540 | 528 |
| Ysgol Y Wern | Llanisien | 75 | 84 | 525 | 493 |
| **Lleoedd/disgyblion cynradd cyfrwng Cymraeg (Derbyn)** | | **760** | **745** | | |
| **Disgyblion cynradd cyfrwng Cymraeg (4-11 oed)** | | | | | **4,567** |
| Ysgol Bro Edern | Pen-y-lan | 180 | 133 | 900 | 513 |
| Ysgol Glantaf | Ystum Taf | 240 | 193 | 1,500 | 850 |
| Ysgol Plasmawr | Tyllgoed | 180 | 176 | 1,140 | 885 |
| **Lleoedd/disgyblion uwchradd cyfrwng Cymraeg (Blwyddyn 7)** | | **600** | **502** | | |
| **Disgyblion uwchradd cyfrwng Cymraeg (11-16 oed)** | | | | | **2,248** |

| Disgyblion cyfrwng Cymraeg (4 -16 oed) | | | | 6,815 |
|---|---|---|---|---|

**Ffynhonnell: NOR Hydref 2016 (PAN – Nifer Derbyn Cyhoeddedig; NOR = Nifer ar y Gofrestr)*

Ar hyn o bryd mae 2% o leoedd gwag net ar fynediad i'r Sector Cynradd Cymraeg, gyda 31 o leoedd ar gael o hyd ar fynediad i'r Dosbarth Derbyn mewn 9 o ysgolion ar draws y ddinas. Fodd bynnag, roedd y lleoedd gwag ar draws y sector cynradd cyfrwng Cymraeg yn 8% ym Medi 2016. Mae hyn yn cymharu â 5% o leoedd gwag yn y sector cynradd cyfrwng Saesneg. Hefyd mae tua 16% o leoedd gwag net ar fynediad i'r sector uwchradd gyda 98 o leoedd ar gael ym mlwyddyn 7 ar draws y tair ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg.

**<u>Trefniadaeth ysgolion</u>**

Cynyddwyd y Nifer Derbyn Cyhoeddedig yn Ysgol y Wern i 75 (2.5DM) a chafodd ei sefydlu'n barhaol ym Medi 2015. Cwblhawyd y gwaith adeiladu i ddarparu ar gyfer y cynnydd ffisegol hwn ym mis Awst 2016.

Fel y nodir yn Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru, gellir caniatáu ehangu eiddo ysgol, a fyddai'n cynyddu capasiti, hyd at gynnydd o 25% o gapasiti ychwanegol, neu 200 o ddisgyblion ychwanegol o'i gymharu â'r capasiti ysgol ar ddyddiad priodol. Roedd ehangu dros dro Ysgol y Wern yn bodloni'r gofyniad hwn.

Aeth y Nifer Derbyn Cyhoeddedig yn Ysgol y Wern yn uwch na'r ffigwr a ganiateir dros dro i ganiatáu hyd at 15 o leoedd ychwanegol mewn mynediad i'r dosbarth Derbyn ar gyfer Derbyniad 2016/17. Mae hyn oherwydd bod amcanestyniadau ar gyfer yr ardal leol wedi dangos y byddai cynnydd sylweddol yn y galw am fynediad yn y sector cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg o'i gymharu â'r tri Derbyniad blaenorol. Dangosodd data poblogaeth cyn-ysgol ar draws y ddinas a gafwyd gan y GIG ers 2014 bod y garfan a dderbyniwyd i ysgolion cynradd yn 2016 yn flwyddyn boblogaeth 'pinacl' yn ardal Llanisien/Thornhill, yn hytrach na bod cynnydd parhaus yn y boblogaeth. Felly cedwir y galw cymesur ar gyfer lleoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn nalgylch Ysgol y Wern dan adolygiad, gan ddod â chynigion newydd i gydbwyso'r cyflenwad a'r galw am leoedd ymlaen lle bo angen.

Cymeradwyodd y Cabinet sefydlu ysgol newydd cyfrwng Cymraeg 2DM yn Butetown, a enwyd yn Ysgol Hamadryad. Agorodd dosbarth dechreuol yr ysgol hon ym Medi 2016 ar y safle blaenorol a ddefnyddiwyd gan Ysgol Tan yr Eos. Nifer y disgyblion oed Derbyn a gafodd fynediad ym mis Medi 2016 oedd 17. Cychwynnodd pennaeth parhaol newydd yn ei swydd o fis Medi 2016 er mwyn darparu parhad tra bod yr ysgol newydd ym Mharc Hamadryad yn cael ei datblygu. Roedd y pennaeth a benodwyd yn dod o ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg a oedd eisoes wedi sefydlu yn y ddinas. Bydd Ysgol Hamadryad yn trosglwyddo o'i safle dros dro i'w safle parhaol yng Ngwanwyn 2018. Cynyddir y Nifer Derbyn Cyhoeddedig i 60 o fis Medi 2017, ynghyd â darpariaeth feithrin newydd.

Hefyd, cymeradwyodd y Cabinet gynllun i atgyfnerthu Ysgol Glan Ceubal ar 1DM i wasanaethu ardal Ystum Taf y ddinas ac i gynyddu'r ystod oed drwy ddarparu meithrinfa newydd gydag 48 o leoedd Cyfwerth Rhan Amser (CRhA) yng Nglan Ceubal o fis Medi 2016. Eisoes cafodd pedwar deg-chwech o'r pedwar deg wyth o leoedd meithrin llawn amser eu llenwi. Cymeradwywyd cynlluniau ar gyfer adeilad newydd gefn yn gefn i Ysgol Glan Ceubal ac Ysgol Gynradd Gabalfa ym Mhwyllgor Cynllunio'r Cyngor ym mis Chwefror (2017). Yn ogystal ag ehangu Ysgol Glan Ceubal, bydd Ysgol Glan Morfa yn cynyddu o 1DM, gyda 30 o blant ychwanegol yn cael eu derbyn bob blwyddyn yn y Dosbarth Derbyn, mewn ysgol newydd sbon ar safle yn Sblot. Mae'r cynlluniau adeiladu hyn yn amodol ar dderbyn cymeradwyaeth Achos Busnes Llawn gan Lywodraeth Cymru ar ddechrau 2017.

Yn y tair ysgol cyfrwng Cymraeg gynradd gymunedol adeiladu newydd (Ysgol Hamadryad, Ysgol Glan Morfa, Ysgol Glan Ceubal), bydd uned feithrin yn gysylltiedig â phob ysgol (yn dibynnu ar gyfyngiadau'r safle). Bydd hyn yn helpu disgyblion iau i ddatblygu eu sgiliau iaith ar ddechrau eu haddysg statudol, gan fod Cyngor Caerdydd yn cydnabod pwysigrwydd

hanfodol datblygu partneriaethau cryf gydag addysg cyn ac ôl-orfodol, sy'n anelu at ddarparu trosglwyddiad di-dor (Ailysgrifennu'r Dyfodol, Mehefin 2014).

Erbyn Medi 2017, bydd 60 lle ychwanegol ar gael ar fynediad i'r Dosbarth derbyn (yn Ysgol Hamadryad ac Ysgol Glan Morfa) a fydd yn cynyddu'r cyfanswm o leoedd ar fynediad i ddosbarth Derbyn mewn addysg cyfrwng Cymraeg o 760 i 820 o leoedd.

Band B yw'r gyfran nesaf o gyllid ar gyfer buddsoddi mewn ysgolion a bydd yn rhedeg o 2019-2024. Mae Caerdydd yn dechrau ymchwilio i flaenoriaethau ar gyfer Rhaglen Band B yr Awdurdod Lleol. Bydd y dadansoddiad anghenion a'r broses gynllunio ar gyfer Rhaglen Band B yn tynnu sylw at y blaenoriaethau a phwysau ar draws y ddinas.

## Newidiadau Ardaloedd Dalgylch

Ymgynghorwyd ar y newid i ddalgylchoedd ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg o Ysgol Plasmawr ac Ysgol Glan Taf drwy drosglwyddo dalgylch Ysgol Pencae o Ysgol Plasmawr i ddalgylch Ysgol Glan Taf a chytunodd Cabinet y Cyngor ar ei weithredu er mwyn cael gwell cyfatebiaeth rhwng y cyflenwad a'r galw, ac i sicrhau safonau cyson uchel o ddarpariaeth addysg. Daw'r newid hwn i rym o fis Medi 2017.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen gosod dalgylch i Ysgol Hamadryad sydd newydd ei sefydlu cyn gynted ag y bo modd. Awgryma dadansoddiad cychwynnol y byddai'r Cyngor yn ymgynghori ar ddalgylch i gynnwys Butetown a rhannau o Grangetown. Fodd bynnag, er mwyn gwneud hyn yn gywir, bydd angen adolygu data o dderbyniadau cynradd ar gyfer Derbyniad 2017/18 i weld a oes unrhyw effaith ar ysgolion o amgylch, yn ogystal â dadansoddi ffiniau dalgylchoedd cyfagos i Ysgol Hamadryad. Bydd hyn yn sicrhau bod y berthynas rhwng y sefydliad ysgolion sy'n bodoli eisoes a dalgylchoedd yn cael ei hystyried yn llawn cyn i unrhyw gynigion gael eu hystyried. Yn y cyd-destun hwn, byddai'n ddoeth i'r Cyngor beidio ag ymgynghori ar newidiadau i ddalgylchoedd yn ystod y cyfnod ymgynghori presennol ar gyfer trefniadau derbyn (o 1$^{af}$ Medi 2016 i 1$^{af}$ Mawrth 2017). Bydd unrhyw gynigion yn destun i drafodaeth a chytundeb.

Nid oes unrhyw gynigion presennol i newid dalgylchoedd ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg eraill ond byddai newidiadau yn cael eu hystyried wrth i ddarpariaeth ychwanegol gael ei dwyn ymlaen.

## Hyrwyddo Addysg cyfrwng Cymraeg

Er mwyn targedu twf addysg cyfrwng Cymraeg mae Cyngor Caerdydd yn anelu i yrru'r galw o'r gwaelod i fyny. Golyga hyn cyn i'r plant gyrraedd oedran ysgol statudol, y bydd eu rhieni wedi cael digon o wybodaeth iddynt wneud dewis gwybodus am y cyfrwng iaith y byddai'n well ganddynt i'w plentyn ei dderbyn. Os yw hyn i fod yn llwyddiannus, byddai angen i'r AALl weithio gyda chydweithwyr yn y sector iechyd i sicrhau bod gwybodaeth gywir ar gael i friffio ymwelwyr iechyd er mwyn caniatáu iddynt drafod opsiynau addysg gyda chleientiaid cyn geni ac ar ôl geni.

Hefyd bydd Cyngor Dinas Caerdydd yn archwilio'r cyfle i ddatblygu partneriaethau gyda Chyrff Iechyd i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer cydweithredu a gweithio ar y cyd pellach. Gallai hyn gynnwys rhoi cyhoeddusrwydd i wybodaeth am beth yw addysg cyfrwng Cymraeg a'r manteision o gael addysg i blant drwy gyfrwng arall, mewn papurau newydd Cymraeg, staff ar wardiau mamolaeth, a thrwy ymwelwyr iechyd.

Caiff cyfraddau trosglwyddo Cylchoedd Meithrin eu monitro, ac maent yn dangos gostyngiad yng nghanran y plant sy'n trosglwyddo i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg rhwng 2014/15 a 2015/16, o 85% i 84%. O'r 14 lleoliad Cylch, dengys 8 niferoedd is yn mynychu'r lleoliadau

o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol gyda 5 lleoliad yn dangos cynnydd yn y nifer o fynychwyr. Gweler Atodiad C am ddata Cyfradd Drosglwyddo'r Mudiad Meithrin.

Mae addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei hyrwyddo i rieni/gofalwyr drwy Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Caerdydd. Mae'r tîm hwn yn cynnal cronfa ddata o'r holl ddarpariaeth gofal plant cofrestredig gan gynnwys darparwyr cyfrwng Cymraeg. Yn ogystal, mae'n cynnwys manylion y darparwyr nad oes rhaid iddynt gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), am eu bod yn gweithredu am lai na dwy awr, os ydynt wedi rhoi eu manylion i'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. Mae'r rhain yn cynnwys clybiau ar ôl ysgol, brecwast, cinio a gwyliau. Mae gwefan Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn darparu gwybodaeth am yr hawl i addysg feithrin am ddim i blant 3 a 4 oed, yn ogystal ag amrywiaeth o wybodaeth ar y Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd a Gweithgareddau trwy gyfeiriaduron ar-lein ar www.ggd-caerdydd.info. Yn ogystal, gall y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd gyfeirio rhieni'n effeithiol at raglen Dechrau'n Deg Caerdydd lle y bo'n briodol. Mae llenyddiaeth hyrwyddo, yn cynnwys posteri a thaflenni gwybodaeth a gynhyrchir gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn ddwyieithog, fel y mae'r wefan Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a chyfeiriaduron ar-lein Gofal Plant, Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd a gweithgareddau.

Mae Gwasanaethau Cymorth Busnes Gofal Plant yn helpu i gynnal y ddarpariaeth bresennol ac yn gwella ansawdd gofal plant yng Nghaerdydd. Gall y gwasanaethau gynnwys: - helpu gyda pholisïau a gweithdrefnau, ceisiadau AGGCC, marchnata, recriwtio staff, cynhyrchu incwm a cheisiadau cyllid grant. Mae Gwasanaethau Cymorth Busnes Gofal Plant ar gael i ddarparwyr gofal plant presennol a newydd; mae swyddogion ar gael i weithio gydag ysgolion, grwpiau chwarae, meithrinfeydd dydd, clybiau ar ôl ysgol a gwyliau, Cylchoedd Meithrin, Crèches a Gwarchodwyr Plant. Mae'r holl wasanaethau cymorth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

## Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg

O dan Ddeddf Gofal Plant 2006, mae gan bob un o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru ddyletswydd statudol i sicrhau gofal plant digonol ar gyfer anghenion rhieni/gofalwyr yn eu hardal i blant hyd at 14 oed, neu hyd nes eu bod yn cyrraedd 18 oed yn achos plant ag anabledd. Cynhaliodd y Cyngor arolwg asesiad digonolrwydd gofal plant yn 2013/14 i gynorthwyo i ddatblygu darpariaeth gofal plant ac asesu'r galw am addysg cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg, ac addysg mewn ysgolion ffydd. Cafwyd cyfradd ymateb isel o 268 o ymatebion, ac roedd y rhaniad canran o rieni/gofalwyr yr oedd yn well ganddynt i'w plentyn/ plant gael eu haddysgu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg yn 60% Saesneg a 40% Cymraeg.

Fel rhan o'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2016/17, gweinyddwyd holiadur rhieni/gofalwyr newydd ym Medi/Hydref 2016 er mwyn adnabod lefelau'r galw a'r bylchau o ran digonolrwydd. Cafwyd 482 o ymatebion, cynnydd sylweddol ar y nifer o ymatebwyr yn yr arolwg blaenorol. Pan ofynnwyd ym mha iaith yr oedd yr ymatebwyr eisiau darpariaeth gofal plant yn y dyfodol, atebodd 22% yn Gymraeg, 21% yn ddwyieithog a 57% yn Saesneg.

Dengys Tabl 16 isod ddadansoddiad o'r iaith mae ymatebwyr yn ei defnyddio ac eisiau ar gyfer darpariaeth gofal plant ar hyn o bryd ac yn y dyfodol:

***Tabl 16: Ymatebwyr sy'n defnyddio ac eisiau darpariaeth iaith wahanol i'r ddarpariaeth gofal plant bresennol ac yn y dyfodol:***

| | Cymraeg | Dwyieithog | Saesneg |
|---|---|---|---|
| **Defnydd ar gyfer gofal plant presennol** | 57<br>14% | 54<br>13% | 291<br>72% |
| **Defnydd ar gyfer gofal plant yn y dyfodol** | 91<br>22% | 89<br>21% | 235<br>57% |

*Ffynhonnell: Tablau data amrwd AoDdGP 2016.*

Roedd gan yr arolwg AoDdGP adran benodol yn ymwneud â'r iaith Gymraeg. Pan ofynnwyd i ymatebwyr a oeddent yn bwriadu anfon eu plentyn/ plant i leoliad addysg cyfrwng Cymraeg dywedodd 34% ie, dywedodd 57% na, ac nid oedd 9% yn sicr.

Y fethodoleg a ffefrir gan y Cyngor ar gyfer rhagamcanu'r galw am leoedd yw defnyddio data poblogaeth gwasanaeth iechyd cyn-ysgol unigol i ragamcanu ar lefel dalgylch ysgolion unigol, gan ddefnyddio model goroesi carfanau safonol ac ystyried y nifer cymesur diweddar sy'n manteisio ar leoedd a gyflenwir gan ysgolion. Mae'r Gwasanaeth Addysg hefyd yn gweithio mewn partneriaeth agos â swyddogion Cynllunio Strategol i sicrhau bod ei methodoleg yn gwneud rhagamcan digonol o'r cynnyrch disgyblion o ddatblygiadau tai newydd, a bod y cyflenwad o leoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ychwanegol i wasanaethu cymunedau newydd (ar gyfran o 20% trwy gyfrwng y Gymraeg/ 80% o leoedd cyfrwng Saesneg) yn uwch na'r galw presennol mewn ardaloedd cyfagos.

O dan Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2013, mae gan weinidogion Cymru'r pŵer i hysbysu'r awdurdod lleol bod angen cynnal asesiad addysg cyfrwng Cymraeg fel modd o asesu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg os na wnaed asesiad yn y 3 blynedd union cyn y flwyddyn asesu. Gan nad yw Caerdydd wedi cynnal asesiad addysg cyfrwng Cymraeg ers o leiaf bum mlynedd, bydd y tîm Cynllunio Ysgolion yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a'r Mudiad Meithrin i gynnal asesiad addysg cyfrwng Cymraeg yn ystod oes y cynllun hwn.

## Atodiad B: Gwybodaeth atodol i Ganlyniad 2:

## Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith ar drosglwyddiad o ysgol gynradd i ysgol uwchradd

### Yr Uned Drochi Gymraeg

Mae'r Awdurdod Lleol yn croesawu hwyrddyfodiaid i'r Uned Drochi Gymraeg, a sefydlwyd ym mis Gorffennaf 2010 ac sydd wedi ei lleoli yn Gabalfa. Mae Caerdydd wedi parhau â'r ymrwymiad i gefnogi a chynnal cynllun hwn ledled y ddinas.

Mae’r disgyblion sy'n mynychu'r uned yn hwyrddyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg ac maent yn cynnwys disgyblion sydd wedi byw y tu allan i Gymru, yn trosglwyddo o addysg cyfrwng Saesneg, neu yn cael eu maethu neu eu mabwysiadu. Mae'r uned yn derbyn disgyblion pan fyddant wedi cael eu cofrestru mewn ysgol gynradd neu uwchradd cyfrwng Cymraeg.

Treulia'r disgyblion dymor yn yr Uned Drochi Gymraeg (h.y. pan fyddant yn dod yn siaradwyr Cymraeg rhugl) ac maent yn derbyn cymorth yn eu hysgol gofrestredig am gyfnod ar ôl gadael. Mae mwyafrif y disgyblion o oedran Cyfnod Sylfaen, ond mae llawer o ddisgyblion CA2 wedi mynychu, rhai yn ystod eu tymor olaf yn yr ysgol gynradd ac wedi integreiddio'n llwyddiannus i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg. Ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2015/16, roedd 7 disgybl a drosglwyddodd i mewn i'r Uned Drochi Gymraeg o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg ac roedd 1 disgybl yn dod o Gasnewydd.

Mae disgyblion CA3 wedi cael cymorth mewn ysgolion uwchradd mewn amgylchiadau penodol lle mae disgyblion wedi dychwelyd i addysg cyfrwng Cymraeg.

Bu cyfradd drosglwyddo’r Uned Drochi Gymraeg yn barhaus o uchel dros y pedair blynedd diwethaf ac mae'r Cyngor yn anelu ati sicrhau bod y gyfradd drosglwyddo uchel yn parhau.

***Tabl 17: Derbyniadau disgyblion i’r uned a’r raddfa drosglwyddo:***

| | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|
| Disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen | 17 | 14 | 10 | 11 | I’w gadarnhau |
| Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 | 5 | 4 | 11 | 12 | I’w gadarnhau |
| Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3 | 1 | 3 | 1 | 1 | I’w gadarnhau |
| Cyfanswm disgyblion | 23 | 21 | 22 | 24 | I’w gadarnhau |
| Disgyblion a drosglwyddwyd i addysg cyfrwng Cymraeg | 23 | 21 | 21 | 20 | I’w gadarnhau |
| % o ddisgyblion a drosglwyddwyd i addysg cyfrwng Cymraeg | 100% | 100% | 95% | 83% | Targed 100% |

*Ffynhonnell: Yr Uned Drochi Gymraeg*

## Atodiad C: Mudiad Meithrin 2015-16 Data Caerdydd

| Enw'r Cylch Meithrin / Cylch Ti a Fi /lleoliad gofal plant cyfrwng Cymraeg nas cynhelir | Nifer sy'n mynychu'r Cylch | Nifer y plant a drosglwyddodd i ysgolion cyfrwng Cymraeg | % o ddisgyblion a drosglwyddodd i ysgolion cyfrwng Cymraeg | Nifer sy'n mynychu'r Cylch | Nifer y plant a drosglwyddodd i ysgolion cyfrwng Cymraeg | % o ddisgyblion a drosglwyddodd i ysgolion cyfrwng Cymraeg |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2014/15** | | | **2015/16** | | |
| Creigiau | 39 | 32 | 82.1% | 20 | 20 | 100.0% |
| Caerau (Trelái Yr Ail Gynt) | 11 | 9 | 81.8% | 22 | 16 | 72.7% |
| Dechrau'n Deg Blodau Bychain | 2 | 2 | 100.0% | 6 | 6 | 100.0% |
| Glan Morfa | 19 | 19 | 100.0% | 17 | 14 | 82.4% |
| Grangetown a'r Bae | 12 | 6 | 50.0% | 26 | 19 | 73.1% |
| Nant Lleucu | 27 | 16 | 59.3% | 26 | 16 | 61.5% |
| Pentre-baen | 15 | 15 | 100.0% | 15 | 13 | 86.7% |
| Pila Pala | 60 | 50 | 83.3% | 41 | 36 | 87.8% |
| Rhiwbeina | 45 | 42 | 93.3% | 39 | 34 | 87.2% |
| Trelai | 25 | 13 | 52.0% | 39 | 24 | 61.5% |
| Tŷ'r Cymry | 12 | 9 | 75.0% | 4 | 3 | 75.0% |
| Y Coed | 11 | 11 | 100.0% | 20 | 17 | 85.0% |
| Y Parc | 38 | 36 | 94.7% | 32 | 30 | 93.8% |
| Eglwys Newydd | 60 | 59 | 98.3% | 58 | 58 | 100.0% |
| **Y Raddfa Drosglwyddo ar Draws y Ddinas** | **376** | **319** | **84.8%** | **365** | **306** | **83.8%** |
| **Y Raddfa Drosglwyddo Genedlaethol** | **I'w gadarnhau** | **I'w gadarnhau** | **85.2%** | **I'w gadarnhau** | **I'w gadarnhau** | **86.4%** |

## Atodiad D: Crynodeb o Fesuriadau CSCA

| **Canlyniad 1: Mwy o blant 7 oed yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ymestyn darpariaeth** | **Cyfredol 2015/16** | **2016-17** | **2017-18** | **2018-19** | **2019-20** |
| **Mesur 1.1: Cynyddu'r nifer o blant saith oed sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg o 1.2% i 16.4% erbyn 2020.** | 15.2% | 15.9% | 15.3% | 16.2% | 16.4% |
| **Mesur 1.2: Cynyddu nifer y plant oedran Derbyn sy'n mynd i mewn i addysg cyfrwng Cymraeg bob blwyddyn** | 690 | 745 * | 720 | 738 | 767 |

*Ffynhonnell: Data cofrestru gan Feddygon Teulu GIG 2016, CYBLD 2013 – 2016, NOR Hydref 2016, Amcanestyniadau CYBLD Ionawr 2016*

* *Roedd 2016 yn flwyddyn frig o ran disgyblion yn mynd i ddosbarthiadau derbyn ar draws y ddinas. Dengys yr amcanestyniadau ar gyfer y dyfodol bod llai o blant yn cael eu derbyn i addysg gynradd o 2017-2019 ac mae'r duedd hon yn cael ei hadlewyrchu yn yr amcanestyniadau uchod. Nid yw'r amcanestyniadau yn cymryd i ystyriaeth y safleoedd tai strategol a gynigir yn y CDLl.*

| **Canlyniad 2: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith ar drosglwyddiad o ysgol gynradd i ysgol uwchradd** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyfredol 2015-16** | **2016-17** | **2017-18** | **2018-19** | **2019-20** |
| Nifer o ddisgyblion Blwyddyn 9 CC | 422 | 456 | 470 | 479 | 534 |
| **Mesur 2.1: I gynyddu'r nifer o ddysgwyr blwyddyn naw a asesir mewn Cymraeg (Iaith Gyntaf) o 1.5% i 14.4% erbyn 2020.** | 12.9% | 13.5% | 14.0% | 13.3% | 14.4% |

*Ffynhonnell: CYBLD Data – Ionawr 2016 & Amcanestyniadau CYBLD*

| **Trosglwyddo effeithiol a dilyniant ieithyddol** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyfredol 2015-16** | **2016-17** | **2017-18** | **2018-19** | **2019-20** |
| Addysg feithrin Cylch Meithrin i addysg feithrin gymunedol Gymraeg a ariennir | 84% | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau |
| Cyfnod Sylfaen (4/5 oed - Derbyn) i Gyfnod Allweddol 2 (7/8 – Blwyddyn 3) | 96% | 96% | 95% | 96% | 97% |
| Cyfnod Allweddol 2 (7/8 oed – Blwyddyn 3) i Gyfnod Allweddol 3 (11/12 oed – Blwyddyn 7) | 91% | 89% | 94% | 88% | 94% |
| Cyfnod Allweddol 3 (11/12 oed – Blwyddyn 7) i Gyfnod Allweddol 4 (14/15 oed – Blwyddyn 10) | 97% | 99% | 98% | 97% | 98% |
| **Mesur 2.2: I gynnal neu wella'r raddfa drosglwyddo gyfartalog ledled y ddinas rhwng Cyfnod Sylfaen i CA2, CA2 i CA3 a CA3 i CA4 o 95% erbyn 2020.** | 95% | 95% | 96% | 94% | 96% |
| **Mesur 2.3: I gynnal trosglwyddiad o 100% o'r Uned Drochi Gymraeg i ysgolion cyfrwng Cymraeg erbyn 2020.** | 83% | 100% | 100% | 100% | 100% |

*Ffynhonnell: Data 2016 y Mudiad Meithrin, CYBLD NOR & Uned Drochi Gymraeg*

| Canlyniad 3: Mwy o ddysgwyr 14-16 oed yn astudio am gymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfredol 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
| **Mesur 3.1: Cynnal y ganran o ddysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) sy'n astudio am o leiaf ddau gymhwyster lefel 1 neu lefel 2 pellach trwy gyfrwng y Gymraeg ar 100% erbyn 2020 (Noder nad yw hyn yn cynnwys y plant hynny sydd â datganiadau penodol o AAA).** | 99.7% | 100% | 100% | 100% | 100% |
| **Mesur 3.2: Cynyddu'r ganran o ddysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) o leiaf bum cymhwyster lefel 1 neu lefel 2 pellach trwy gyfrwng y Gymraeg gan 3% i 95% erbyn 2020 (Noder nad yw hyn yn cynnwys y plant hynny sydd â datganiadau penodol o AAA).** | 92% | 93% | 94% | 95% | 95% |

*Ffynhonnell: CCyD - Cyflenwad data dros dro CA4 2016 (cymwysterau Iaith Gymraeg a llenyddiaeth Gymraeg wedi'u heithrio o'r cyfrifiadau)*

| Canlyniad 4: Mwy o ddysgwyr 16-19 yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfredol 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
| **Mesur 4.1: Cynyddu'r ganran o ddysgwyr 17 oed sy'n astudio 2 neu fwy pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg o 4% erbyn 2020.** | 90.9% | 92.6% | 93.3% | 94.2% | 95.0% |

*Ffynhonnell: CCC - Cyflenwad data dros dro CA4 2016*

| Canlyniad 5: Mwy o fyfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg | | |
|---|---|---|
| **Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg Iaith Gyntaf** | | |
| | Cyfredol 2015-16 | 2019-20 |
| **Mesur 5.1: Cynyddu'r ganran o ddysgwyr ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen sy'n cyrraedd o leiaf Canlyniad 5+ y Cyfnod Sylfaen mewn Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg i 95% erbyn 2020.** | 93.1% | 95% |
| **Mesur 5.2: Cynnal y ganran o ddysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 4+ mewn asesiad athro yn y Gymraeg ar 96% erbyn 2020.** | 96.1% | 96% |
| **Mesur 5.3: Cynyddu'r ganran o ddysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 5+ mewn asesiad athro yn Gymraeg i 95% erbyn 2020.** | 93.1% | 95% |
| **Mesur 5.4: Cynyddu'r ganran o ddysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 sydd yn cyflawni graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg iaith gyntaf i 85% erbyn 2020.** | 79.8% | 85% |

*Ffynhonnell: Cronfa Ddata Graidd Cymru Gyfan Llywodraeth Cymru Ion 2016*

| Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg Ail Iaith | | |
|---|---|---|
| | **Cyfredol 2015-16** | **2019-20** |
| **Mesur 5.5: Cynyddu'r ganran o ddysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 4 mewn Cymraeg Ail Iaith i 80% erbyn 2020.** | 76% | 80% |
| **Mesur 5.6: Cynyddu'r ganran o ddysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 5 mewn Cymraeg Ail Iaith i 83% erbyn 2020.** | 80% | 83% |
| **Mesur 5.7: Cynyddu'r ganran o ddysgwyr sy'n astudio'r cwrs llawn TGAU Cymraeg ail iaith i o leiaf 80% erbyn 2020.** | 38% | 80% |
| **Mesur 5.8: Cynyddu'r ganran o'r cohort blwyddyn 11 sy'n cyflawni graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg ail iaith i 40% erbyn 2020.** | 32% | 40% |

*Ffynhonnell: Data dros dro CCyD 2016*

| **Yn Sefyll Cymraeg Ail Iaith** | **Cyfredol 2015-16** |
|---|---|
| **Canran y garfan yn sefyll TGAU Cymraeg ail iaith Cwrs Llawn** | 37.89% |
| **Canran y garfan yn sefyll TGAU Cymraeg ail iaith cwrs byr** | 43.77% |
| **Canran y garfan nad oedd yn sefyll am naill ai CAI cwrs llawn na chwrs byr** | 18.38% |

*Ffynhonnell: Cyflenwad Data CA4 Dros Dro CCyD 2016*

| Mwy o ddysgwyr â sgiliau Cymraeg lefel uwch | | |
|---|---|---|
| | **2015-16** | **2019-20** |
| **Mesur 5.9: Cynyddu cyfanswm y rhai sy'n cofrestru ar gyfer Safon Uwch Cymraeg iaith gyntaf (fel canran o gofrestriadau TGAU Cymraeg iaith gyntaf ddwy flynedd ynghynt) i 5.5% erbyn 2020.** | 4.8% | 5.5% |
| **Mesur 5.10: Cynyddu cyfanswm y rhai sy'n cofrestru ar gyfer Safon Uwch Cymraeg Ail Iaith (fel canran o'r Cwrs Llawn TGAU Cymraeg Ail Iaith ddwy flynedd ynghynt) i 2% erbyn 2020.** | 0.44% | 1% |

*Ffynhonnell: Data dros dro CCyD*

| Canlyniad 6: Darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyfredol 2015-16** | **2016-17** | **2017-18** | **2018-19** | **2019-20** |
| **Mesur 6.1: Cynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael mewn CAAau cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg o 18 o leoedd i 42 erbyn Medi 2020** | 18 | 28 | 34 | 40 | 42 |

*Ffynhonnell: Uwch Arweinydd Cyflawniad - Cynhwysiant*